# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 479 · Gorffennaf 2017 · 50c**


# Llechi a Llafur



Llun: Emyr Roberts

Ar Orffennaf y cyntaf fe orymdeithiodd mintai o drigolion ardal Bethesda i Gastell y Penrhyn, mewn gorymdaith oedd yn rhan o waith artistiaid preswyl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Walker & Bromwich. Cynllun oedd hwn a fyddai'n cludo hanes llawn y chwarel i galon y castell ei hun, a hynny am y tro cyntaf. Dywedodd yr artistiaid ei bod yn hen bryd trafod hanes a phwysigrwydd yr anghydfod diwydiannol hwyaf yn hanes Prydain, un a chwalodd gymunedau ac a newidiodd yr ardal - am byth. Roedd y cerddwyr yn ail-droedio'r daith gymerodd y chwarelwyr dros ganrif yn ôl i leisio'u pryderon a'u hanfodlonrwydd ynghylch telerau ac amodau gwaith yr Arglwydd Penrhyn. Yn goron ar y cyfan roedd seremoni dadorchudio cerflun oedd, yn ôl yr artisitiaid, yn "cyfleu'r chwerwder a'r dioddefaint a achosodd yr Arglwydd Penrhyn i chwarelwyr y fro,a'u teuluoedd" yn ystod cyfnod y Streic Fawr rhwng 1900-1903.

**Creithiau**

Y mae creithiau'r streic yn parhau'n rhan o'n hetifeddiaeth yn y Dyffryn, gyda rhai, hyd heddiw, yn methu meddwl am gamu dros y rhiniog mawreddog sy'n cynrychioli un o ddiwydiannau mwyaf llewyrchus a dadleuol y ganrif ddiwethaf. Ond, roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn awyddus i geisio adfer y sefyllfa, a phenllanw eu gweledigaeth oedd y cynllun hwn. Nid i ddileu hanes, nac ychwaith ei ail-ysgrifennu. Y bwriad oedd coffau'r hanes yn gyflawn.

**Gweithdai**

Y bwriad cychwynnol oedd cydnabod effaith y Streic Fawr ar yr ardal, a rhoi presenoldeb cadarn i'r hanes,oedd, cyn hyn, yn absennol o'r castell ei hun. Ymgynghorodd yr artistiaid Walker & Bromwich â thrigiolion y fro, gan ofyn am unrhyw wybodaeth oedd gan bobl am y streic, ac am syniadau ynghylch sut y dylid coffau'r digwyddiad a naddodd nid yn unig y llechweddau gleision, ond ein hunaniaeth ni fel pobl yr ardal. Ymateb Walker & Bromwich i hyn oll oedd y "digwyddiad mawreddog llawn cerddoriaeth ac emosiwn" a gafwyd ddechrau'r mis.

**Y daith**

Dechreuodd yr orymdaith yn Ysgol Dyffryn Ogwen, gyda pherfformiad gan ddisgyblion yr ysgol a Chôr y Penrhyn, ac anerchiad gan Rhys Trimble. Gorymdeithiwyd hyd furiau'r castell, cyn cludo'r cerflun trwy byrth y castell, i'w gartref newydd yn y brif neuadd. Yno cafwyd perfformiadau gan Gôr Meibion y Penrhyn a pherfformiad gan Rhys Trimble o ddarn a gomisiynwyd yn benodol ar gyfer yr achlysur.

Yn nannedd miniocaf y Streic, fe gydiodd ewyllys trigolion y Dyffryn yn rhywbeth y tu hwnt i eiriau. Rhyw ruddin prin, rhyw ddycnwch penderfynol, rhyw styfnigrwydd heintus. Oedd wir, roedd rhywbeth arbennig iawn am y bobl a alwai'r ardal hon yn gartref iddynt bryd hynny. Ac y mae hynny'n wir hyd heddiw. Rhywbeth ydyw y dylai pawb ei drysori. Bob un ohonom.

**Mwy o luniau ar dudalen 20**



Llais Ogwan

## Panel Golygyddol


**Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Dewi Llewelyn Siôn**
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

**Fiona Cadwaladr Owen**
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Orina Pritchard**
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com


## Swyddogion


**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion**:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post**:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y mis


Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Lowri Roberts

Y golygydd ym mis Medi fydd
Derfel Roberts, Llys Artro,
84 Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG.
01248 600965
Ebost: hylaw@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn
**dydd Mercher, 30 Awst**
os gwelwch yn dda.
Plygu nos **Iau, 14 Medi** yng
Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan *y Lolfa*


Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

**Mae Llais Ogwan ar werth**
**yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:**

**Dyffryn Ogwen**
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
SPAR, Bethesda
Siop y Post, Rachub

**Bangor**
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

**Caernarfon**
Palas Print

**Porthaethwy**
Awen Menai

**Rhiwlas**
Garej Beran

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415
**Neville Hughes** ☎ 600853

# Dyddiadur y Dyffryn

**Gorffennaf**
22 "Folk Devils" a D.J. Rhys Mwyn. Neuadd Ogwen am 7.30.

**Awst**
12 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
25 Meic Stevens a gwesteion. Neuadd Ogwen am 8.00.
30 Clwb Llanllechid

**Medi**
07 Sefydliad y Merched Carneddi. Dr. Huw John Hughes. Cefnfaes am 7.00
09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen, 9.30 – 1.00.
09 Bore Coffi NSPCC. Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00
14 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes 6.45.
16 Bore Coffi Clwb camera. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
23 Bore Coffi Capel Jerusalem. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

**Hydref**
04 Theatr Bara Caws. "Dim Byd Ynni". Neuadd Ogwen am 7.30
20 Noson yng ngwmni Welsh Whisperer – Clwb Criced am 8yb

## Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184






Ariennir yn Rhannol gan Llywodraeth Cymru

CYMRAEG

## Rhoddion i'r Llais

**£50.00** Er cof am John Owen Roberts, Allt Pen y Bryn oddi wrth y teulu. (Cywiriad: NID £30.00 fel yr adroddwyd yn rhifyn Mehefin.)

**£10.00** Wynn ac Eurwen Williams, Tyddyn Dicwm, Pont y Pandy.

**£5.00** Di-enw.

**£5.50** Mair a Meirion, 41 Abercaseg, Bethesda.

**£10.00** Er cof annwyl am Joan M Morris, 38 Adwy'r Nant, a fuasai'n 75 mlwydd oed ar 26 Gorffennaf, oddi wrth Meirion, Alison, Verna a'r holl wyrion a wyresau.

**£30.00** Er cof am dad, John Williams (Broadway), oddi wrth Joan a'r teulu.

Diolch yn fawr.

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

**Gwobrau Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (143) | Joy Evans, Llwyn Onn, Talybont. |
| £20.00 | (111) | Gwen Davies, Tanysgafell, Bethesda. |
| £10.00 | (77) | Miss J. B. Williams, 20 Lôn Ganol, Porthaethwy. |
| £5.00 | (46) | Rhiannon Efans, 1 Ffordd Pant, Bethesda. |

**EGLWYS UNEDIG BETHESDA**
**LLENWI'R CWPAN**

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

# Partneriaeth Ogwen yn Dathlu Gŵyl Gwenllian

Dros benwythnos Mehefin 16 /17eg cafwyd dau ddigwyddiad i goffau'r Dywysoges Gwenllian.

Ar nos Wener Mehefin 16eg daeth tyrfa luosog iawn i'r Douglas i wrando ar ddarlith gan y Prifardd Ieuan Wyn ar "Gwenllian y Dywysoges Goll" – bu'n rhaid cario cadeiriau a stoliau ychwanegol i 'stafell y ddarlith a hyd yn oed wedyn roedd pobl yn sefyll yn y drws i wrando!

Cafwyd darlith wirioneddol ysgubol gan Ieuan. Llwyddodd i wau dyddiadau a digwyddiadau allweddol yn hanes Gwenllian, ei thad Llywelyn (Ein Llyw Olaf) a'i mam Eleanor De Montford a fu farw ar ei genedigaeth, ei ewyrthr Dafydd, sef brawd Llywelyn, a'i saith cyfneither a dau gefnder yn un stori ddiddorol, er yn ddirdynnol o greulon ar adegau. Daeth â'r hanes i derfyn trwy ein hatgoffa am frad a arweiniodd at lofruddiaeth Llywelyn, dienyddiad Dafydd a charchariad y plant am eu hoes, gan gynnwys Gwenllian a oedd ychydig fisoedd oed yn cael ei chyrchu i leiandy Sempringham ble bu fyw am 54 mlynedd hyd ei marwolaeth yn 1337.

Dangosodd Ieuan sut y bu i'r Brenin Edward 1af ddefnyddio yr union dactegau rhyfela a'r un dulliau o arteithio a chosbi a ddioddefodd y Cymry yn eu goresgyniad ganddo rai blynyddoedd yn ddiweddarach wrth oresgyn yr Albanwyr dan arweiniad William Wallace.

Drannoeth, ar yr 17eg cafwyd taith i gopa Carnedd Gwenllian dan arweiniad Sian Shakespere a drefnwyd ar y cyd â Chlwb Mynydda Cymru, fel hyn y mae Sian yn disgrifio'r daith a dyma lun o'r cerddwyr tebol a gyrhaeddodd y copa:

A hithau'n fore crasboeth o fis Mehefin – yn gwbl groes i'r dydd Sadwrn blaenorol – bu i 21 o bobl – aelodau o Glwb Mynydda Cymru, trigolion Dyffryn Ogwen a rhai o ychydig bellach i ffwrdd – ymgasglu ym maes parcio gwaelod Pant Dreiniog yn barod am her, sef esgyn i gopa Carnedd Gwenllïan. Roedd cacen ffrwythau ddwys o ddarlith Ieuan Wyn am hanes y Dywysoges Gwenllïan dal i droelli ym meddyliau nifer ohonom, wedi'r noson flaenorol yn y Douglas.

Roedd rhai ohonom eisoes yn 'nabod ein gilydd yn iawn ond roedd hen ddigon o sgwrsio p'un ai'n gydnabod ai peidio wrth i ni ddringo'r llechweddau. A ninnau'n cydgerdded dan awyr digwmwl cawsom y chwa o awel braf cyntaf wrth i ni frigo ysgwydd Y Garth ac yn wir roedd yn ddigon braf wrth i ni ymlwybro, ar ôl ein hoe paned ar ben Gyrn Wigau, heibio'r Drosgl a Bera Bach.

Yn naturiol roedd dipyn o ddisgwyliad wrth i ni nesáu at y copa ond roedd yn rhaid cytuno gydag un aelod, mymryn o 'swigen' ddirodres yng nghanol mwclis copaon y Carneddau yw Carnedd Gwenllïan – neu Garnedd Uchaf fel y'i henwid gynt – o bell. Er mwyn sicrhau bod digon o danwydd yn y tanc i fynd am y copa, dyma stopio am ginio islaw'r Aryg a rhai ohonom yn sôn nad yw'r pentwr trawiadol yma o gerrig yma'n cael hanner digon o sylw ag y mae'n haeddu.

Gyda bwyd yn ein boliau aethom i'r copa yn ddigon handi a dyma ni'n eistedd yn wên o glust i glust o wybod ein bod wedi cyrraedd. Cawsom ein gwobrwyo gyda golygfeydd godidog ond roedd tawch yn chwarae triciau gyda'r llygaid wrth edrych at y gorwel dros Ynys Môn ac anodd oedd dweud y gwahaniaeth rhwng cwmwl a mynydd! Ar y pwynt yma chwyddodd ein nifer i 24 wrth i 3 trigolyn lleol ymuno hefo ni a dyma droi yn ôl am Fethesda a thafarn Y Siôr yn fwy penodol i rai.

# Calendr Llais Ogwan 2018

Lluniau ar gyfer Calendr 2018 i mewn cyn DIWEDD GORFFENNAF 2017, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael eu hystyried



Lluniau (yn ddigidol, os yn bosibl) i Dafydd Fôn
deifon@yahoo.co.uk
neu (os heb fod yn ddigidol, neu ar ddisg)
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan, Bethesda LL57 3TR

**Edrychwn ymlaen i weld eich lluniau**

**Arfbais Douglas Arms**
**Cwrw Casgen - Gardd Gwrw**
**Noson Cwis** Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00
**ORIAU AGOR**
Llun – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 16:00 a 20:00 – 23:00
**douglasarmsbethesda.com**
**01248 600219**


## Ysgol Abercaseg

**Oes Rhaid i mi Ddeffro?**
Bu pob dosbarth yn gwylio sioe Oes Rhaid i mi Ddeffro? gan Gwmni Drama Arad Goch yn Neuadd Ogwen. Roedd yn sioe chwareus ac egnïol a braf oedd gweld pob plentyn yn chwerthin lond eu boliau wrth fwynhau helyntion y ddau gymeriad. Ar ddiwedd y perfformiad cafodd pawb gyfle i ymuno gan ddefnyddio defnyddiau i ddarlunio breuddwydion.



**Wythnos Iach**
Yn benllanw i wythnos iach - a drefnwyd gan y Sgwad Syniadau - cafwyd prynhawn o weithgareddau. Bu'r plant yn bwyta salad ffrwythau, yn dawnsio, yn creu posteri, a diolch i staff yr Urdd am gynnal gweithgareddau ffitrwydd ar yr iard. Yn ogystal â hyn rhoddwyd tystysgrifau i bawb fu'n brysur trwy gydol yr wythnos yn cyflawni 'Heriau Iach' adref. Diolch i'r holl rieni fu'n helpu eu plant â'u heriau gan wneud yn siŵr eu bod yn yfed digon o ddŵr, yn bwyta ffrwythau a llysiau, ac yn cadw'n heini.

**PC Meirion**
Daeth PC Meirion i'r ysgol am y tro olaf gan ei fod ar fin ymddeol. Y tro hwn bu'n dysgu'r plant ynglŷn â phwy all eu helpu mewn argyfwng, gan danlinellu pwysigrwydd cofio eu cyfeiriadau a rhifau ffôn eu rhieni. Uchafbwynt ei ymweliad i lawer o'r plant oedd cael gwisgo gwahanol fathau o hetiau plismyn. Hoffai pawb yn yr ysgol ddiolch i PC Meirion am ei gefnogaeth, gan ddymuno ymddeoliad hapus iddo.

**Diwrnod Trosglwyddo**
Treuliodd y plant fydd yn dechrau'n y Meithrin ym mis Medi fore'n yr ysgol ac aeth plant Blwyddyn 2 i Ysgol Penybryn am y diwrnod. Mae'n chwith meddwl amdanynt yn gadael yr ysgol ddiwedd y tymor, gan fod pob un ohonynt wedi cyfrannu i fywyd yr ysgol ers dechrau bron i bedair mlynedd yn ôl. Pob hwyl iddynt ym mlwyddyn 3!

**Sioe Dyffryn Ogwen**
Er i'r sioe gael ei gohirio, cafodd gwaith celf plant yr ysgol ei feirniadu. Llongyfarchiadau i bawb ddaeth i'r brig.

**Bwystfilod Bach**
Diolch o galon i griw Cwmni'r Fran Wen am ddod i'r ysgol i berfformio sioe bypedau Bwystfilod Bach. Mwynhaodd pob plentyn y perfformiad hwyliog a bu'n gyfle iddynt ddeffro'u dychymyg tra'n clywed iaith goeth a dysgu am stori leol.Roedd yn gyfle hefyd i'r athrawon gasglu syniadau creadigol.

**Tipi Ni**
Bu criw o blant yr ysgol yn ffilmio ar gyfer rhaglen Tipi Ni. Bydd y rhaglen i'w gweld ar S4C yn fuan, ac ynddi bydd y plant yn sôn am leoliadau a hanesion am Fethesda.

**Hel Sbwriel**
Diolch i Neville Hughes ac Ann Williams o Balchder Bro Ogwen am ddod i helpu'r grŵp Bysedd Gwyrdd i gasglu sbwriel o amgylch Abercaseg. Roedd y plant wedi synnu fod cymaint o sbwriel yno, a chasglwyd sawl bag bin mewn dim o dro.



**Diogelwch y ffordd**
Bydd ardal Ysgol Abercaseg yn cael ei throi yn ardal 20 milltir yr awr yn y dyfodol agos, a chafwyd cystadleuaeth cynllunio poster i hysbysu pobol o'r newid hwn. Llongyfarchiadau i Osian ac Ethan ar ddod i'r brig. Bydd eu posteri buddugol yn cael eu troi'n arwyddion fydd i'w gweld ar y ffyrdd ger yr ysgol.

# Dydd Owain Glyndwr

## Medi 16 2017 - nodyn ar gyfer eich dyddiadur.

Mae Partneriaeth Ogwen yn trefnu digwyddiad unigryw i ddathlu Dydd Owain Glyndwr eleni trwy ail-greu pryd o fwyd fel y byddai Owain, ei deulu a'i osgordd wedi'i fwynhau yn ei Lys yn Sycharth .

Byddwn hefyd, yn ystod y pryd, yn cael datganiad o gerdd fawr bardd Llys Owain, sef Iolo Goch, i'r Llys yn Sycharth, cerdd sydd yn disgrifio bywyd y llys, gan gynnwys y bwydydd, mewn ffordd fyw iawn.

Peidied neb â meddwl fod bwyd canoloesol yn ddiflas ac undonog, roedd y defnydd o gigoedd, pysgod, llysiau a ffrwythau tymhorol brodorol, perlysiau a sbeisys yn greadigol dros ben – heb sôn am fod yn sialens! Cofiwch nad oedd tatws wedi cyrrredd y wlad eto!

Nid yw'r lleoliad na'r union ddyddiad wedi ei gadarnhau eto ond mae'r fwydlen yn cael ei chynllunio ar hyn o bryd.

Y bwriad yw gwneud y digwyddiad yn un cymunedol, felly os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cyfrannu at y digwyddiad mewn unrhyw ffordd (er enghraifft cyflwyno syniadau a chynorthwyo gyda'r coginio) hoffem glywed gennych chi.

Gwerthfawrogwn glywed gan bobl a fyddai â diddordeb mewn llogi lle yn y wledd (am bris rhesymol!!) Cysylltwch â ni ar unwaith. Gobeithir y bydd cryn ddiddordeb yn y digwyddiad, a hwyrach y bydd yn rhaid cyfyngu ar niferoedd.

**Cynan Jones,**
**Swyddog Prosiect Partneriaeth Ogwen**
**post@ogwen.org**
**neu 01248 602131**

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer
Ronald Jones
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

# Casgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol '17

Y swm a gasglwyd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni oedd **£4,464.96.**
Mae'n diolch yn fawr i'r trefnwyr ardal, yr holl gasglwyr ac i drigolion y Dyffryn am eu haelioni ac i'r rhai hynny wnaeth lenwi'r ffurflen fydd yn galluogi Cymorth Cristnogol i adennill y dreth incwm ar eu cyfraniad. Diolch hefyd i Adrian Williams am archwilio'r cyfrifon ac i Neville Hughes am drefnu'r Bore Coffi fel arfer.

**Diolch i bawb am ymddiried yn Cymorth Cristnogol i leddfu anghenion y rhai sy'n llai ffodus na ni.**
Mae'r swm uchod yn cynnwys cyfraniadau gan Eglwys St Tegai, Llandegai **£50** ac Eglwys St Anns a St Mair, Mynydd Llandegai **£20**. Gwnaed casgliad o **£69.20** yn yr oedfa Cymorth Cristnogol yn yr Eglwys Unedig. Roedd elw'r Bore Coffi yn **£443.69.**
Cyfanswm y casgliadau o dŷ i dŷ at Wythnos Cymorth Cristnogol eleni oedd **£3882.07**. Mae'r casgliadau wedi eu crynhoi fesul ardal gan nodi enwau'r rhai fu'n casglu.

**Bethesda a Braichmelyn £1,299.59** Trefnwyr: Rhiannon Efans a Walter Williams.
Casglwyr: Angharad Hughes, Barbara Conlan, Barbara Owen, Dafydd Pritchard, Elfed Bullock, Elna Jones, Godfrey Northam, Gwenno Evans, Heulwen Roberts, Ian Hughes, Lester Bath, Luned Edwards, Rhian Roberts, Rhiannon Efans a Walter Williams.
**Carneddi £297.90** Trefnydd: Ieuan Wyn.
Casglwyr: Ieuan Wyn, Janet Buckle, Karen Williams, Menna Wyn, Pat Corns, Selwyn Owen, Valmai Davies.
**Gerlan £218.85** Trefnydd: Neville Hughes.
Casglwyr: Ann Williams, Davina Evans, Neville Hughes a Sandra Williams.
**Mynydd Llandygai £128.95** Trefnydd: Elin Sanderson.
Casglwyr: Elin Sanderson a Iona Rhys.
**Rachub a Llanllechid £409.63** Trefnydd: Paul Rowlinson.
Casglwyr: Chris Benson, Helen Williams, Pat Fox, Paul a Ffion Rowlinson.
**Rhiwlas £327.20** Trefnwyr: Iona Jones a Nia Jones.
Casglwyr: Alison Roberts, Gwen Aaron, Iona Jones a Steffan Job.
**Talybont a Llandegai £653.24** Trefnydd: Neville Hughes.
Casglwyr: Barbara Jones, Catrin Hobson, Enid Davies, Jean Hughes a Nerys Jones.
**Tregarth £546.71** Trefnwyr : Beryl Hughes a Carys Williams.
Casglwyr: Angharad Williams, Beryl Hughes, Bessie Buckley, Bethan Crowe, Carys Williams, Catrin Doyle, Dafydd Roberts, Rosemary Williams a Val Hayward.

Griff Morris, Trysorydd Cymorth Cristnogol Bethesda a'r Cylch


Wu Shu Kwan®
Chinese kickboxing
The Ultimate Art of Fitness & Self-Defence
E-bost: info@wushukwan.com Neges Destun: 07835 244398 Ffôn: 020 8749 8537
Gwefan: www.wushukwan.com \ Gweplyfr: Wu Shu Kwan - Official / Trydar: @WuShuKwan



MAE EIN SYSTEM UNIGRYW O KUNG FU TRADDODIADOL AM EICH HELPU GYDA:
- GWELLA FFITRWYDD
- COLLI PWYSAU
- EDRYCH YN DDA
- HUNAN HYDER
- CYRARFOD FFRINDIAU NEWYDD
- TRECHU OFN
- RHEOLI STRAEN
- DWEUD HWYL-FAWR WRTH FWLIO
- GWIREDDU BREUDDWYD YM MYD Y CREFFTAU YMLEDD

Croeso cynnes i bawb yn enwedig rhai di-brofiad
Am fwy o fanylion neu os am roi cynnig arni, dewch draw i'r dosbarth yn

NEUADD OGWEN
Stryd Fawr, Bethesda
CANOLFAN TREGARTH
Hen Stesion, Tregarth ger Bangor, Gwynedd, G. Cymru
- Hyfforddwyr -
Prif Hyfforddwr - JAKE FITZPATRICK
4ydd Gradd Gwregus Du
Is-hyfforddwr - ELENA FITZPATRICK
3ydd Gradd Gwregus Du





Y FFORDD HAWSA A'R MWYAF EFFEITHIOL I WELLA EICH:
Cryfder • Cyflymdra • Ystwythder • Hyblygrwydd • Cydbwysedd • Cydlyniad a Symudedd y Corff
DIM TALIADAU MISOL DRUD - Symudol: 07769 584646



PEN Y CEUNANT ISAF
Y BWTHYN TÉ
www.snowdoncafe.com
Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW
01286 872 606





C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bethesda | 01248 600045 | Cludiant am ddim yn lleol | Mynytho | 01758 730768 |
| Caernarfon | 01286 676070 | Stoc helaeth ac amrywiol | LLanrwst | 01492 640794 |
| Llangefni | 01248 751677 | Croeso i gyfrifon masnachol | Siop yn Llanrwst | 01492 640794 |
| | | Staff cyfeillgar a phroffesiynol | | |
| | | Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y | | |

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

# Rachub a Llanllechid

**Angharad Llwyd Beech,**
Garnedd Lwyd,
7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com




**Gradd mewn Pensaerniaeth**

Llongyfarchiadau i Arwyn Williams, mab Richard a Denise Williams, Ffordd Llanllechid, ar lwyddo i basio Rhan 2 RIBA mewn Pensaerniaeth ym Mhrifysgol Caint. Mae hwn yn gwrs “Masters”. Dymunwn yn dda i Arwyn pan aiff yn ôl i Lundain cyn bo hir i gwblhau ei radd ac ennill “Rhan 3”. Ar ôl hynny fe gaiff alw ei hun yn bensaer!

**Diolch**

Dymuna teulu y diweddar George Roberts ac Edith Maud Roberts (Corbri) ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd a mam annwyl iawn. Diolch am yr holl gardiau a rhoddion er cof tuag at Tŷ Gobaith. Diolch i’r Parchedig Emlyn Williams a’r Parchedig John Mathews am eu gwasanaeth ac i Gareth Williams am y trefniadau trylwyr.

Dymuna Ann, Melanie, Keilly a Jenna - teulu’r diweddar Raymond Tugwell - ddiolch o waelod calon i’r holl deulu a ffrindiau, aelodau’r gymuned leol a thu hwnt, am eu cefnogaeth ddiwyd wrth drefnu’r Diwrnod o Hwyl ddiweddar er cof am Raymond. Roedd y Clwb Criced dan ei sang ar yr 20fed o Fai ac estynnir diolch enfawr i bawb am eu haelioni ac am sicrhau fod y diwrnod yn llwyddiant ysgubol. Trosglwyddwyd swm sylweddol o arian i Ward Glaslyn, Ysbyty Gwynedd i ddiolch iddynt am eu gofal am Raymond yn ystod ei salwch.

**Capel Carmel**

*Trefn Gwasanaethau*

Gorff.
23 Gweinidog.
30 Oedfa.
Awst
13, 20: Uno yn Jerusalem
(10.00yb a 5.00yh.)
27 Gweinidog
Medi
03 Gweinidog (Cymun)
10 Parchg. Geraint Roberts.
17 Parchg. Ddr. Siôn Aled Owen.

Oedfaon am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes.

Bydd yr Ysgol Sul a’r Clwb Dwylo Prysur yn ail ddechrau ym mis Medi.

*Ysgol Sul Carmel*

Ar fore Sul. 25 Mehefin, cafodd plant yr Ysgol Sul drip i Grochendy “Piggery Pottery” yng Nghwm y Glo. Mi gawson nhw hwyl ardderchog yn y fan honno. Cafodd bob un ohonyn nhw beintio “cadw-mi-gei” mewn siapiau cestyll, robotiaid, llongau gofod neu anifeiliaid o bob math.

Yn anffodus, nid oedd y tywydd yn braf iawn, ond ‘roedd croeso i ni fwyta ein picnic yn y caffi yno. Diolch i’r perchenog a’r staff am bopeth a wnaeth ein hymweliad yn un cofiadwy. Cyn ymadael â’r crochendy cafodd pawb dynnu ei lun efo ei ddarn o grochenwaith ei hun. Diolch i Mari Rowlinson, Cerys a Dai am ddod i’n helpu.

*Ysbyty*

Bu tair aelod yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef Mrs. Gwenda Jones, Glan Ffrydlas, Mrs. Ann Tugwell, Ffordd Llanllechid ac Anna Mair, Lôn Groes.

Cofion a gwellhad buan atoch ac at bawb o’r aelodau sy’n sâl gartref.

*Cydymdeimlo*

Anfonwn ein cydymdeimlad fel Eglwys at Mr. a Mrs. Richard Rowlands a’r teulu, Erw Las, yn eu profedigaeth fawr o golli eu mab, Dylan yn 43 mlwydd oed. Hefyd, cofiwn am ei briod, Michelle a’r plant, Sasha a Dion, hefyd Mrs. Arfona Edwards a Mrs. Margaret Swift.

**Datblygiadau ar eiddo lleol**

Mae gwaith wedi dechrau i greu lle parcio wrth ochr Capel Bethel ac mae swyddfa Bost Llanllechid yn dal i fod ar werth. Gwnaed cais i newid yr amodau arfaethedig ar ddatblygiad Plot 11 Llwyn Bedw.

**Llawdriniaeth**

Dymunwn yn dda i Ann Tugwell Ffordd Llanllechid gyda’i llawdriniaeth ddechrau mis Gorffennaf.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn a Glenys Morris, Maes Bleddyn a’r teulu wedi marwolaeth ei gŵr John Terfel Morris.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Dilwyn Pritchard, ‘Llais Afon’, Bron Arfon ar ei lwyddiant haeddiannol. Mae Dilwyn wedi llwyddo i ennill gradd Dosbarth Cyntaf yn y Gymraeg o Brifysgol Bangor, a bydd yn graddio’r haf yma.

**Clwb Llanllechid**

Cynhaliwyd y clwb ar bnawn Mercher Mehefin 7fed. Croesawodd y llywydd bawb i’r cyfarfod. Rhoddwyd croeso i Blodwen a Myfanwy yn ôl ar ôl salwch. Gyrrwyd ein cofion at Ogwenna a Goronwy chwaer a brawd Rhiannon. Anfonwyd cydymdeimlad at Christine Jones (Bolton) ar golli ei chwaer.

Llongyfarchwyd Owen Arthur, ŵyr Arfona, am ei berfformiad yn ‘35 Diwrnod’ a chanwyd pen-blwydd hapus i Betty.

Yna croesawodd y llywydd Gwyn Thomas o Dyddyn Du atom. Cawsom bnawn diddorol a hwyliog iawn yn ei gwmni. Gwnaethpwyd y te gan Rita a Medi. Byddwn yn ail-gyfarfod ar Fedi 27ain.

**Anrhydedd am gyfraniad hyd-oes i wyddoniaeth**

Bydd Deri Tomos, Llanllechid yn cael ei anrhydeddu mewn seremoni arbennig ar faes Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn fis Awst. Bydd yn derbyn Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod am ei gyfraniad hyd-oes i wyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â’i waith ymchwil eang mae Deri yn athro ysbrydoledig sydd wedi cyfrannu’n helaeth i gynlluniau gradd fel Biocemeg, Bioleg a Biomeddygaeth gan sicrhau datblygu rhannau helaeth o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y cynlluniau gradd hyn. Mae Deri hefyd yn gadeirydd y Panel Gwyddorau Naturiol ac yn aelod gweithgar o fwrdd Academaidd y

Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae Deri wedi gwneud mwy na neb i boblogeiddio Gwyddoniaeth a hynny i'r gynulleidfa Gymraeg.

Anfonwn ein llongyfarchion cynhesaf atoch chi a mwynhewch y seremoni.

**Y Byd Athletau**

Gyda hanner y tymor bellach wedi ei gwblhau mae llwyddiant Natalie Owen, Ffordd Llanllechid yn dal i fynd o nerth i nerth.

Erbyn hyn mae Natalie wedi symud i oedran uwch sef dan 15 oed ac yn rhoi ei sylw'r tymor yma ar godi safon a chael canlyniadau personol gwell. Dyma oedran newydd iddi ac mae'n cystadlu yn erbyn gwrthwynebwyr ddwy flynedd yn hŷn. Serch hynny mae wedi profi cryn lwyddiant. Mae'r teithio'n dal yr un mor galed ac mae wedi cystadlu mewn llefydd fel Bury, Blackburn, Wrescam, Maenceinion, Casnewydd a Chaerdydd i enwi ond ychydig. Mae hefyd bellach yn cystadlu yng nghystadlaethau y Gynghrair Datblygu. Er nad yw'n hapus gyda rhai o'i pherfformiadau wrth daflu'r belen siot, mae hi wedi taflu dros 37 medr gyda'r belen drom 3kg. Ond daw hynny gyda mwy o brofiad o gystadlu yn yr oedran uwch.

Mae wedi profi llwyddiant yn yr oedran uwch wrth daflu'r waywffon, disgen a'r morthwyl, ac er ei bod yn cyfaddef nad yw'n cael yr un llwyddiant â'r llynedd mae hi wedi cael canlyniadau da iawn yn ystod hanner cyntaf y tymor. Daeth yn drydydd yn ddiweddar ym mhencampwriaethau Cymru yng Nghaerdydd yng nghystadleuaeth y morthwyl. Cafodd dair buddugoliaeth ardderchog yn Blackburn yn y Gynghrair Datblygu hefyd. Torrodd hefyd record Ysgol Dyffryn Ogwen yn yr oedran dan 15 oed yn y siot, y waywffon a'r ddisgen.

Mae'n ymarfer dair gwaith yr wythnos gyda Chlwb Menai ac yn edrych ymlaen am weddill y tymor. Mae hi hefyd am ddiolch i nifer o noddwyr sydd yn ysgafnhau ychydig ar gostau teithio aruthrol, sef Ffenestri Cymru, Y Royal Oak, Barbwr Ogwen, Cwmni Llechi Carson, Gareth Williams Trefnydd Angladdau, a Dŵr y Mynydd.

Bydd Natalie yn falch o glywed gan unrhyw un sydd yn barod i gynnig ei noddi. Cysylltwch â'r teulu ar 01248 602823. Yn y cyfamser dal ymlaen Natalie yw'r neges!

MODURDY
FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

Llais Ogwan
I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

# Clwb Hanes Rachub / Llanllechid

**Noson Arbennig**

Noson o fwrlwm yn llawn hanes lleol ar lafar ac ar gân â ddaeth thymor y Clwb i ben ar nos Fercher, Mehefin 28 gyda chynulleidfa niferus yn bresennol.

Disgyblion Ysgol Llanllechid oedd yn gyfrifol am yr adloniant – ac am adloniant a gafwyd. Cawsom ein tywys drwy hanes yr ardal gan gyfarfod a rhai o gymeriadau a digwyddiadau hanesyddol a hynny mewn ffordd ysgafn a hwyliog.



Buom yn siop Madam Chips am gyfnod yn dysgu am y modd yr oedd hi'n paratoi'r bwyd - doedd sgôr glendid bwyd yn cyfri' dim! Dysgwyd hefyd am driciau llanciau lleol nad oedd am dalu am y cynnyrch! Yna hanes William Gruffydd, y bardd gwlad o Hen Barc, William Morgan a'i ddefaid, y peiriannydd, William Elis Williams, darlithydd ym Mhrifysgol Bangor a adeiladodd awyren a'i hedfan ym 1910. A beth am berfformiad Robat Jôs Gwich, wrth inni ei ddilyn wrth ei waith yn cario parseli o'r stesion ac yn trwsio Capel Bethesda, ac wrth gwrs y gwymp a gafodd o ben to'r Capel.

Cawsom ymweld hefyd â chyfnod y Streic Fawr drwy lygaid Côr y Merched, côr a ffurfiwyd gan Megan Llechid, a newidiodd ei henw i Madam Tellini wrth iddi fentro i'r byd opera, a Mrs Mary Ellen Parry a fu'n arweinydd ar y côr. Dyma griw o ferched a deithiodd ledled Prydain am fisoedd yn codi arian tuag at gynnal y streicwyr. Cyfunwyd hyn yn effeithiol gyda chyfarfod rhwng rhai o gyn-chwarelwyr Bethesda, a oedd wedi symud i Faesteg yn ne Cymru i weithio yn y pyllau glo, ag aelodau o'r côr a oedd yn cynnal cyngerdd yn y dref honno.

Mrs Marian Jones luniodd y sgript, a hi fu'n gyfrifol am gynhyrchu'r perfformiad, heb sôn am gyfeilio yn feistrolgar ar y gitâr. Cafodd gymorth parod ac effeithiol rhai o gymorthyddion yr ysgol wrth i'r plant newid o un sefyllfa i'r llall mor gyflym. Roedd perfformiad y plant yn wych ac roedd yn braf eu gweld yn mwynhau eu hunain wrth gyfleu'r hanes o'm blaenau. Mae'n rhaid hefyd canmol cymaint o rieni a oedd yn bresennol i gefnogi'r plant yn eu hymdrech.

Ie, noson arbennig iawn a brofodd y gellir dysgu hanes lleol mewn ffordd ysgafn a naturiol iawn. Anfonodd y noson neges i benaethiaid addysg yng Nghaernarfon a Chaerdydd a llawer i Gaer arall sy'n amau gwerth cynnwys hanes lleol a hanes Cymru o fewn cwricwlwm ysgolion Cymru.

Gobeithio y caiff pawb haf braf ac yn barod erbyn diwedd mis Medi am flwyddyn arall o hel hanes. Bydd Mrs Brenda Wyn Jones yn dod atom ar ddiwedd mis Medi i siarad am Megan Llechid neu Madam Tellini a oedd yn gysylltiedig â Chôr Merched y Streic Fawr. Diolch i bawb am eu cefnogaeth dros y tymor yma.

# *Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?*




09 Medi – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
16 Medi – Cefnfaes – Clwb Camera
23 Medi – Cefnfaes – Capel Jerusalem
30 Medi – Cefnfaes – Eglwys Glanogwen
07 Hydref – Cefnfaes – Plaid Cymru
21 Hydref – Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
28 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.
04 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
11 Tachwedd – Cefnfaes - Gorffwysfan
25 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Plaid Lafur
25 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin - NSPCC

**Pwysig**

*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

CAFFI COED Y BRENIN

**BORE COFFI NSPCC**
SADWRN, MEDI 9
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI CLWB CAMERA DYFFRYN OGWEN**
SADWRN 16 MEDI
10.00 – 12.00

## Ysgol Tregarth

**Kerbcraft**
Cafodd disgyblion blwyddyn 1 ymweliad arbennig gan gath enwocaf Gwynedd - Carys Ofalus - yn ddiweddar.
Bu Carys Ofalus, cymeriad hyrwyddo diogelwch y ffyrdd Cyngor Gwynedd, draw i'r ysgol er mwyn diolch i ddisgyblion blwyddyn 1 am eu gwaith caled yn ystod sesiynau Kerbcraft. Mae'r plant wedi cael budd sylweddol o'r cynllun wrth iddynt dderbyn hyfforddiant ymarferol yn rheolaidd ar sut i groesi'r ffordd yn ddiogel. Diolch o galon i Shirley Wyn Williams am hyfforddi'r disgyblion dros yr wythnosau diwethaf.

**Ymweliad Pili Palas**
Thema Dosbarth Llywelyn yr hanner tymor yma yw 'Gwingo ac Ymlusgo', felly i ffwrdd â ni am dro i Pili Palas, er mwyn cael dysgu mwy. 'Roedd yn ddiwrnod bendigedig, a phawb wedi mwynhau cael cyfarfod y creaduriaid bach a hyd yn oed cyffwrdd rhai ohonynt! Plantos dewr iawn wir.

**Staffio**
Hoffem groesawu Miss Ffion Roberts yn ôl i Dregarth yn dilyn ei chyfnod mamolaeth. Ar y cyd gyda Mrs Cerys Roberts, byddant yn ymgymryd â rôl athrawon dosbarth blwyddyn 6.

Yn anffodus, bydd yn rhaid ffarwelio gyda Mr Jonathan Jones sydd wedi bod yn athro am gyfnod ym mlwyddyn 6. Diolch i chi am eich holl waith Mr Jones. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

**PC Meirion Williams**
Cafodd disgyblion yr ysgol sgwrs ddiddorol iawn gyda PC Meirion Williams yn ddiweddar. Braf oedd eu gweld yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i'w gwestiynau. Diolch yn fawr iawn i PC Meirion Williams am alw draw i ymweld â'r plant.

**Diwrnod Trosglwyddo**
Tra bod plant Blwyddyn 6 yn treulio diwrnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen cafodd gweddill yr ysgol gyfle i dreulio diwrnod yn eu dosbarthiadau newydd. Roedd hi'n braf





croesawu'r plant fydd yn dod i'r dosbarth Meithrin ym mis Medi. Diolch yn fawr iawn i Anti Shirley am drefnu a pharatoi prynhawn blasu ar gyfer disgyblion yr ysgol a'u rhieni.

**Criced**
Bu dau dîm criced mewn twrnament 'Kwik Cricket' ym Methesda yn ddiweddar. Rhaid canmol y ddau dîm am eu hymdrech a'u hymddygiad drwy gydol y dydd. Bu i bawb fwynhau y cystadlu a'r cymryd rhan.

Marchnad Ogwen

**Awst 12fed**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

**Medi 9fed**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

**Hydref 14eg**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

**www.marchnadogwen.co.uk**
**Facebook**

CANOLFAN CEFNFAES

**GYRFA CHWIST**
GORFFENNAF 25
MEDI 12 a 26
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

Pob math o waith trydanol
**Huw Jones**
**Ymgymerwr Trydanol**
Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol
Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
**Ffôn: 01248 602480**
**07967 541870**

# Caerhun a Glasinfryn

**Marred Glyn Jones**, 2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
☎ 01248 351067 marred567@btinternet.com

**Barbeciw**
Cynhaliwyd barbeciw cymunedol hynod o lwyddiannus yng Nglasinfryn ar ddydd Sadwrn, 17 Mehefin. Roedd yn un o nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol a gafodd eu cynnal ar draws y wlad ar y diwrnod hwnnw er cof am y diweddar aelod seneddol, Jo Cox. Fe ddisgleiriodd yr haul drwy'r dydd ac fe gafwyd llawer o hwyl, gan gynnwys sesiynau dawnsio gwerin yng nghwmni criw lleol o ddawnswyr Morus. Roedd y plant wrth eu boddau yn chwarae yn y pwll bach, ac roedd y cogyddion yn brysur yn gwneud yn siŵr fod pawb wedi bwyta llond eu boliau! Diolch i bawb gyfrannodd at lwyddiant y digwyddiad, a diolch yn arbennig i'r cogyddion brwdfrydig a ddaliodd ati yn y gwres mawr! Daeth Menna Baines, ein cynghorydd newydd ar Gyngor Gwynedd, heibio a braf, hefyd, oedd gweld ein haelod yn y Cynulliad, Sian Gwenllian, oedd wedi cael cyfle i fwynhau nifer o sgyrsiau diddorol. Roedd pawb wedi mwynhau'r digwyddiad yn arw, ac mae 'na si y bydd barbeciw arall yn cael ei gynnal cyn diwedd yr haf. Edrychwn ymlaen!

**Dosbarthiadau yn y Ganolfan**
Bydd y dosbarthiadau a gynhelir yn y Ganolfan yng Nglasinfryn yn gorffen dros yr haf. Ond peidiwch â phoeni, mi fyddan nhw'n ail-ddechrau fis Medi. Dyma'r dosbarthiadau sydd ar gael ar hyn o bryd: Ioga ar ddydd Llun, 11.00-12.30, Gwnïo a Chrefftau ddydd Mawrth 10.30-4.00, Qigong nos Fawrth o 6.30-7.30, ac Arlunio ar ddydd Gwener o 10.00-1.00. Os hoffech logi'r Ganolfan, efallai ar gyfer cynnal dosbarth neu ar gyfer digwyddiad cymdeithasol, cysylltwch â Mair Griffiths ar (01248) 352966. Mae'r Ganolfan yn lle delfrydol ar gyfer pob math o ddigwyddiadau, ac mae'r ffioedd llogi yn rhesymol iawn.





**Bingo**
Cynhaliwyd sesiwn Bingo yn y Ganolfan ar 30 Mehefin er budd Uned Ffisiotherapi Strôc Ysbyty Gwynedd ac fe wnaed elw o £115. Diolch o galon i bawb a gefnogodd y noson mewn unrhyw fodd. Cynhelir y Bingo nesaf ar 4 Awst er mwyn codi arian at bentref Omwabini sydd yn Kenya. Mae hyn yn dilyn ymweliad Alun Pritchard â'r Cylch i adrodd hanes diweddaraf gwahanol brosiectau yn y pentref hwnnw, megis puro dŵr, adeiladu tai, addysgu plant a gwragedd gweddwon sydd yn dioddef o Aids. Mae Alun yn gwirfoddoli gyda'r prosiect yma ers deng mlynedd bellach ac wedi cyflawni cymaint i helpu'r trueiniaid dros y cyfnod yma drwy fynd ag arian drosodd i brynu offer a nwyddau yn Omwabini i wneud y gwaith. Gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad yn ddiolchgar tuag at y noson.

**Ysbyty**
Mae Gwyneth Jones, 6 Waen Wen, wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn Lerpwl. Anfonwn ein dymuniadau gorau am lwyr wellhad ati. Mae Rosemary Jones, 9 Bro Infryn, bellach adref ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl. Pob dymuniad da iddi hithau, hefyd, am wellhad buan.

**Cyfarfod Blynyddol**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan ar nos Fercher, 28 Mehefin. Daeth nifer dda ynghyd, gyda'r canlyniad fod gan y Pwyllgor nifer o aelodau newydd. Adroddodd y Trysorydd, Mair Griffiths, fod sefyllfa ariannol y Ganolfan yn iach ar hyn o bryd. Talodd y Cadeirydd, Elfed Roberts, deyrnged i bawb sy'n gweithio'n galed er budd y Ganolfan, a dywedodd ei fod yn falch o weld cynifer o wynebau newydd ar y Pwyllgor. Mae'r Ganolfan yn adnodd pwysig i'r ardal ac mae'n dda gweld cynifer yn cymryd diddordeb ac yn cefnogi'r hyn sy'n digwydd yno.

**Cylch Glasinfryn**
Rydym bob amser yn eiddgar i glywed y newyddion diweddaraf gan Mr Alun Pritchard am ei ymweliadau â Kenya. Ac felly y bu yng nghyfarfod y Cylch ar nos Iau, 22 Mehefin, gan mai Alun oedd y gŵr gwadd. Bu Alun a'i wraig yn Kenya ddechrau'r flwyddyn am chwech wythnos, yn gweithio'n wirfoddol ar gynllun Omwabini yng nghwmni Mama Mary a'i mab, James. Aeth Sarah Flynn a'i ffrind yno i helpu am gyfnod hefyd. Cynllun i helpu pobl dlawd adennill eu hunan barch yw hwn. Dyma waith hynod o anodd dan amgylchiadau trist a thruenus gan fod yr afiechyd Aids yn gyffredin iawn yno. Y nod yw codi tŷ i deuluoedd (sef mamau a'r plant ), sefydlu ffynnon o ddŵr glân a rhoi'r cyfle i fyw yn annibynnol. Mae Alun yn ddyn arbennig, sydd wedi bod ynghlwm â'r cynllun ers 10 mlynedd. Mae wedi codi 79 o dai yn ystod y cyfnod yma, ac mae'n wirioneddol gredu fod hawl gan bob plentyn i do uwch ei ben, bwyd ar y bwrdd a dŵr glan i'w yfed. Dyna i chi Alun. Halen y Ddaear go iawn. Mae'n fraint cael ei adnabod. Ni fydd cyfarfod o'r Cylch ym mis Awst. Dr Shaun Russell fydd y gŵr gwadd ar nos Fercher, 13 Medi, am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan. Bydd yn siarad am fywyd gwyllt yn ynysoedd y Falkland.

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**

# Nyth Y Gân



'L'Angelus' gan Jean-Francois Millet (1859)

**Y Gloch**

Y ddau drodd i weddïo yn eu byd
A'r gloch bell yn seinio;
Gwerinwyr a geir yno
A'u celfi brau'n medi bro.

**Ffos Bach y Ddôl**
Ychydig a wyddai amdani,
Am y ffos bach a redai trwy'r ddôl,
A llai byth a ŵyr ple y tarddai
O edrych ymhell, bell yn ôl.

Mor gyson ei sŵn drwy yr amser
Yn llifo yn wastad o hyd,
I amryw fe roddodd y pleser
Ymhlith pethau gorau'n y byd.

Y synau naturiol sy'n bwysig
Yn aros o hyd gyda ni,
Ohonynt y deillia y miwsig
Gan ddod â'n caneuon i'r bri.

Y dŵr sy tu ôl i'r gyfrinach,
Nadredda drwy'r mawndir bob dydd,
Mae hwnnw yn oer ac yn holliach
A'i hynod lifeiriant mor rhydd.

**Gwlith y Bore**
Arian hyd wyneb erwau, a daw hud
I oedi yn berlau;
Hynod bris fu'r cyfnod brau
Yn goron ar y gweiriau.

**Y Garreg Las**
Ger ei glun bu'r garreg las yn gorwedd
I'r gŵr mewn perthynas
I'w naddu hi yn addas,
Llenwi bro fu'r llechi bras.

**Dafydd Morris**

## Ysgol Dyffryn Ogwen

**Ymddeol**
Dymuniadau gorau i bennaeth Ysgol Dyffryn Ogwen, Alun Llwyd sydd yn ymddeol ddiwedd mis Awst. Daeth Mr. Llwyd i'r ysgol fel dirprwy yn gyntaf yn 1993 ac er iddo adael am gyfnod i weithio gyda Cynnal yng Nghaernarfon ac fel pennaeth Ysgol y Creuddyn, fe ddychwelodd i Ddyffryn Ogwen fel pennaeth yn Ionawr 2004. Yn ystod ei bedair mlynedd ar ddeg fel pennaeth, mae'r ysgol wedi mynd o nerth i nerth, a bellach mae Cymru gyfan yn gwybod yr hyn yr oeddym ni fel staff yn ei wybod yn barod – mae safon addysg yn Ysgol Dyffryn Ogwen, yn ogystal ag ysgolion cynradd y dalgylch wrth gwrs, yn rhagorol. Yn enedigol o Garndolbenmaen, fe raddiodd mewn Cerddoriaeth yn Aberystwyth, ac athro Cerdd oedd ei alwedigaeth i ddechrau, gan dreulio sawl blwyddyn fel Pennaeth Cerdd yn Ysgol Tryfan. Bu Mr Llwyd yn arweinydd llwyddiannus ar Gôr Meibion y Penrhyn dros nifer o flynyddoedd. Mae ganddo hefyd ddiddordeb mawr mewn chwaraeon, yn gefnogwr brwd i dîm rygbi Cymru ac yn fwy felly i'w hoff dîm pêl-droed, Manchester United. Mae'n siŵr y bydd yn manteisio ar ei ymddeoliad i ymweld ag Old Trafford yn fwy aml. Wrth gwrs, fe gafodd bleser mawr o ddilyn llwyddiant Cymru yn Ewro 2016 yn Ffrainc a gobeithio y caiff gyfle i fod yn rhan o'r wal goch os y cyrhaedda Cymru rowndiau terfynol Cwpan y Byd yr Haf nesaf. Uchafbwynt ei gyfnod yn yr ysgol yn ddi-os oedd i arolygwyr ESTYN raddio'r ysgol yn rhagorol y tro diwethaf iddynt ymweld - ychydig iawn o ysgolion trwy Gymru sydd wedi cael y ffasiwn glod. Bu arweiniad Mr. Llwyd yn allweddol i lwyddiant yr ysgol ac fe fydd yn ôl yn yr ysgol fel gŵr gwadd yn y Noson Wobrwyo ym mis Medi i ddathlu llwyddiannau'r disgyblion. Ymddeoliad hapus iddo a'i wraig Tegwen sydd hefyd yn ymddeol o Ysgol Tryfan.



**Cyflwyno Proffil Personol**
Ddydd Gwener, 23ain o Fehefin, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion blwyddyn 11 ac 13 cyn gadael yr ysgol. Braf oedd croesawu Mr Dewi Gwyn, ein cyn-athro Cemeg, fel ein gŵr gwadd. Mae'n draddodiad bellach i'r disgyblion wisgo'u dillad gorau ar gyfer y cyfarfod. Fel y gwelwch o'r lluniau roedd pawb yn hynod o smart! Cafwyd eitemau cerddorol gan Stephanie Owen o flwyddyn 11 yn canu 'Y Nos yng Nghaer Arianrhod', parti o ferched blynyddoedd 10-13 yn canu 'Gwenllian', ac Efa Glain a Rhiannon Llwyd yn perfformio darnau ar y piano wrth i bawb gyrraedd. Braf iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.



*Ceri-Ellen Speddy, Gruffydd Roberts a Ffion Parry*



*Aled Owsianka-Roberts, Rhun Morris a Lois Owen*

**Presenoldeb 100%**
Er bod 55 disgybl eleni gyda phresenoldeb llawn o 100% am y flwyddyn, roedd dau ddisgybl ym mlwyddyn 11 heb fethu'r un diwrnod drwy eu holl amser yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd yn braf iawn gwobrwyo Joshua Hughes a Dylan Robertson am beidio colli'r un diwrnod mewn pum mlynedd - a chawsant wobr arbennig fel cydnabyddiaeth o'r gamp arbennig yma. Mae pob ysgol yn rhoi pwysau mawr ar bresenoldeb da, mae camp Joshua a Dylan yn esiampl i bob disgybl yn y Dyffryn.



*Joshua Hughes a Dylan Robertson*

**Dymuno'n dda**

Bydd dau athro'n gadael ddiwedd y tymor - Mr Hefin Evans, Pennaeth yr Adran Gerdd, sydd wedi ei benodi'n Bennaeth yr Adran Gerdd yn Ysgol Tryfan, a Mrs Amy Charlton Hughes, athrawes Saesneg, sydd wedi cael swydd yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Fel pennaeth cerdd, mae Mr Evans wedi bod yn weithgar iawn yn paratoi partïon a chorau at eisteddfodau'r Urdd ac Eisteddfod Dyffryn Ogwen, ac wedi cynhyrchu tair sioe gerdd lwyddiannus iawn.

Dymunir yn dda i'r ddau a diolch iddynt am eu gwasanaeth i'r ysgol. Diolch hefyd i ddau gyn-ddisgybl – Rheinallt Davies a David Hayes – a fu'n gweithio fel cymorthyddion yn yr ysgol.

**Adran Dylunio a Thechnoleg**

Oherwydd safon uchel gwaith cwrs dylunio a thechnoleg Ceri Hulme blwyddyn 13 a Dylan Robertson blwyddyn 11 bu'r gwaith yn cael ei arddangos ym Mhontio yn ystod mis Mehefin. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch.

**Ymweliad Blwyddyn 6**

Bu 106 o ddisgyblion sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi yma am ddiwrnod. Cawsant gyfle i flasu gwersi celf, technoleg gwybodaeth a chael cyfnod yn eu dosbarthiadau cofrestru newydd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu!

**Llechi a llafur**

Bu côr yr ysgol yn perfformio yn ystod seremoni agoriadol Llechi a Llafur ddydd Sadwrn, Gorffennaf 1af, yn yr ysgol. Yr oedd yn fraint cael cefnogi'r artistiaid sydd wedi gweithio mor galed i gynhyrchu gwaith celf sy'n adlewyrchu'r annhegwch mawr a oedd yn bodoli yn y dyffryn rhwng cyfoeth mawr Castell y Penrhyn, a thlodi'r chwarelwyr ar y llaw arall.

**Gweithdy Canu**

Bu 20 o ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 yn cymryd rhan mewn gweithdy canu yn Venue Cymru, Llandudno ar ddydd Mercher, Mehefin 22ain fel rhan o ddathliadau CânSing. Cafwyd ymarferion yn ystod y bore ac yna perfformiadau yn y prynhawn o ganeuon amrywiol o rai operatig i ganeuon pop a thraddodiadol Cymraeg. Roedd ymateb pob un o'r disgyblion yn arbennig ac yn frwdfrydig ac roedd pawb wedi cael diwrnod llawn hwyl yn canu'n ddi-stop!

**Cwrs Arweinydd Awyr Agored**

Llongyfarchiadau i Elan Môn Gilford sydd wedi cael ei dewis yn un o bedwar o Wynedd a Môn i fynychu Cwrs Arweinydd Awyr Agored yng Nghanolfan Arthog dros yr haf. Bydd yn mynychu cwrs o wythnos sy'n cael ei ariannu gan Glwb Rotari Bangor.

**Ymweliad blwyddyn 12 i Labordai Prifysgol Bangor**

Bu criw o fyfyrwyr sydd yn astudio BTEC lefel 3 Gwyddoniaeth ar ymweliad o gwmpas labordai Bioleg y Brifysgol er mwyn cael cyflwyniad gan ddarlithwyr am nodweddion arbennig labordai gwahanol. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio er mwyn cwblhau aseiniad sydd yn rhan o'r cwrs i ddylunio labordy arbenigol.

**Cynhadledd Chweched Dosbarth**

Yn ddiweddar cafodd disgyblion flwyddyn 12 y cyfle i fynd i gynhadledd 6ed dosbarth ym Mhrifysgol Bangor. 'Roedd yn gyfle gwych i gael cyflwyniad i'r Brifysgol ac mewn olwg i fywyd myfyriwr. Cawsom sesiynau am gyllid a bywyd myfyriwr yn ogystal â sesiwn am sut i ysgrifennu datganiad personol a fydd yn ddefnyddiol iawn i'n paratoi at y flwyddyn nesaf. Yn y prynhawn cynhaliwyd darlithoedd ar bynciau penodol gan roi gwybodaeth a manylion i ni am gyrsiau'r Brifysgol, felly'n rhoi gwell syniad i ni o ba gyrsiau i'w dewis yn y dyfodol.
Gwenllian Owen, blwyddyn 12

**Rygbi**

Llongyfarchiadau i dîm rygbi genethod dan 15 fu'n cystadlu yn nhwrnamaint Eryri ar gaeau Caernarfon yn ddiweddar. Roedd 7 tîm yn rhan o'r gystadleuaeth gyda Dyffryn Ogwen yn llwyddo i fynd i rownd derfynol y plât ar ôl ennill tair gem a cholli dwy (o un cais!)

Yn rownd derfynol y blât roedd y genod i chwarae Brynrefail - yn rownd y grŵp bu i'r ysgol golli o un cais. Roedd hi'n gêm gyffrous iawn gyda Brynrefail ar y blaen o 2-1 ar hanner amser. Yn ystod yr ail hanner roedd 'Pesda wedi llwyddo i gael y sgôr yn ôl i 3-3 a phenderfynwyd chwarae amser ychwanegol ac y byddai cais euraid yn ennill. Roedd taclo brwd a ffyrnig gan y genethod a llwyddodd y bêl i gyrraedd Sophie Jeffreys ar yr asgell ac wrth iddi ochr gamu heibio dwy amddiffynwraig defnyddiodd ei chyflymder i groesi'r llinell gais. Daeth y plât yn ôl i Ddyffryn Ogwen! Da iawn genod.

**Beicio**

Mae'r timau beicio mynydd wedi gwneud yn dda iawn yng nghystadleuaeth beicio mynydd Arfon. Timau bechgyn blwyddyn 8, genethod blwyddyn 8 a bechgyn blwyddyn 10 yn ail, a genethod blwyddyn 10 yn drydydd. Llwyddodd Jac Oliver, Boe Celyn ac Ela Oliver i ennill eu rasus.

**Criced**

Enillodd Ysgol Dyffryn Ogwen gêm griced cwpan Eryri yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle o 100 o rediadau.
Sean Buchanan 45
Ryan Williams 13
Tomos Hughes 24 heb fod allan
Huw Davies 12
Gethin Hughes 12
Owain Griffiths 11 heb fod allan

3 wiced i Joe Bunford, 2 wiced i Sean Buchanan, 1 wiced i Jac Griffiths, 2 wiced i Huw Davies a 2 wiced i Brandon Owen.



J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

# Bethesda

**Fiona Cadwaladr Owen**, Bryn Meurig Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW ☎ 601592

**Joe Hughes**, Awel y Nant,Ffordd Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

**Yr Eglwys Unedig**

*Y Gymdeithas*

Aeth nifer dda o'r aelodau i Halen Môn, i weld sut mae halen yn cael ei dynnu o'r môr, a'i anfon i wledydd dros y byd. Yna, cawsom bryd blasus iawn yng Ngwesty'r Victoria ym Mhorthaethwy i ddod â noson bleserus i ben. Diolch i Minnie am drefnu'r cyfan. Etholwyd Luned Edwards yn is-ysgrifennydd, a diolchwn iddi am ei pharodrwydd i dderbyn y swydd.

*Oedfaon*

Daliwn i gael oedfaon rhagorol gyda chynulleidfaoedd teilwng, yn eu mysg oedfa o dan ofal Menai, oedfa o dan ofal Ceri a Minnie, ac oedfa ar fore Sul o dan ofal Y Parchedig T E Williams, Henllan. Diolch iddynt i gyd, ac i Eurwen am drefnu'r cyfarfod gweddi.

*Y Clwb Celf*

Mae'r Clwb yn cyfarfod ar fore Mercher, ac mae croeso i unrhyw un i ddod atom – cysylltwch ag Alwenna am fwy o wybodaeth.

*Cofion*

Anfonwn ein cofiwn at bawb sydd yn methu dod i'r oedfaon. Ar yr un pryd, 'rydym yn falch fod Mr Dewi Hughes yn ôl adref wedi cyfnod yn yr ysbyty.

*Yr Ysgol Sul*

Aeth y trip eleni i'r Gelli Gyffwrdd, ac yn ôl pob sôn, cafwyd diwrnod ardderchog gan bawb – yn blant, athrawon a rhieni. Bydd cyfnod o seibiant yn awr tan fis Medi, pryd y bydd croeso mawr i aelodau hen a newydd.

*Corwynt Cariad*

Fel rhan o'n hymgyrch fel eglwys i godi arian at Apel Corwynt Cariad, aeth nifer o'r aelodau ar daith gerdded noddedig o Dregarth, drwy'r Tynal Tywyll, i Fethesda, ac i'r Festri, lle'r oedd gwledd wedi'i pharatoi ar eu cyfer. Llwyddwyd i godi swm o dros £250 at yr achos, a mawr yw ein diolch i'r rhai a fu'n cerdded, a'r rhai a fu'n paratoi'r bwyd.

*Llenwi'r Cwpan*

Ni fydd paned ar gael yn ystod mis Awst, ond edrychwn ymlaen at eich croesawu'n ôl atom ym mis Medi.

*Cyhoeddiadau*

Gorffennaf 23: Y Parchedig Gareth Edwards (10 a 5)
Gorffennaf 30: Y Parchedig Ddr. Elwyn Richards (10)
Mr Donald Pritchard (5)
Awst 6: Dim gwasanaethau, ond cofiwch am Wasanaeth Boreol, a Chymanfa'r Nos, yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn – os na allwch fynychu, bydd y ddau gyfarfod ar y teledu.
Awst 13: Y Parchedig Geraint Roberts
Awst 20: Y Parchedig Mererid Mair Williams

**Sefydliad y Merched Carneddi**

Ar ddiwrnod braf aeth aelodau o Sefydliad Y Merched Carneddi ar eu trip addysgiadol flynyddol. Dydd Iau, Gorffennaf 6ed oedd y diwrnod. Cychwyn y daith o Fethesda i Oriel Môn yn Llangefni , cael cinio gwerth chweil, a mynd o gwmpas yr oriel a'r siop. Wedyn ymlaen i ymweld â Phorth Swtan yn Church Bay, Caergybi. Cael croeso gan aelodau o Gyfeillion Swtan ac edrych ar ffilm yn dangos sut y bu i'r cyfeillion fynd ati i ail-greu'r bwthyn gwyn-galchog oedd gynt yn adfail, i'r tŷ tô gwellt a welir heddiw.

Cafwyd eglurhad ar sut roedd y teulu a arferai fyw yno'n cynnal a chadw eu hunain drwy amseroedd caled iawn. Yr oedd y teulu yn hunangynhaliol ac yn tyfu popeth yn yr ardd. Dim ond blawd, te a burum, halen a siwgwr oedd raid iddynt eu prynu yn y siop leol.

Yr oedd yn ddiwrnod da iawn, a'r aelodau i gyd wedi mwynhau yn arw. Diolchodd ein llywydd, Rita Bullock, i Gwyneth Morris,ein hysgrifenyddes, am drefnu'r diwrnod - yn cynnwys yr heulwen !!

Bydd y sefydliad yn ail-ddechrau ar Fedi 7fed yng nghanolfan Cefnfaes. Gwyliau haf hapus i holl ddarllenwyr y Llais.

**Diolch**

Dymuna teulu'r diweddar John Hubert Williams (Broadway) ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iawn. Diolch i staff Coed Isaf, Llanrhos, lle derbyniodd ofal arbennig. Diolch hefyd i'r Parchedig Hugh John Hughes am y gwasanaeth, Mrs. Helen Williams, yr organyddes, ac i Gareth Williams am y trefniadau trylwyr ac urddasol.

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Geraint Jones, Ffordd Pantglas, ar achlysur eu priodas yn yr Hafod, Llanrwst, yn ddiweddar.

**Cartref Newydd**

Croeso cynnes iawn i Bethan, Richard a Dai i'w cartref newydd yn ffordd Pantglas.

**Cydymdeimlo**

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:

Mr. Robert T. Morris a'r teulu, Bryntirion, wedi colli tad, sef y diweddar John Temple Morris, Maes Bleddyn, Llanllechid.

Mrs. Rita Evans, Erw Las, a'r teulu, ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith, Mr. Alun Owen, Tregarth.

Mr. a Mrs. Richard Rowlands a'r teulu, Erw Las, yn eu profedigaeth fawr o golli eu mab, Dylan, yn 43 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at briod Dylan, sef Michelle, a'r plant, Sasha a Dion yn Mynydd Llandygai. Hefyd at ei chwaer, Siân a'r teulu, ei frawd Eifion a'r teulu. Hefyd Mrs. Margaret Swift a'r teulu. Maes Coetmor a Mrs. Arfona Edwards, Maes y Garnedd.

**Marw**

*Mrs. Anne Evans*

Ar 23 Mehefin, ym Mryn Seiont, Caernarfon, yn 82 oed, bu farw Mrs. Anne Evans (Nancy), 5 Rhes Penybryn, gweddw Mr. Eifion Evans, mam a mam yng nghyfraith annwyl i Stephen a Susan, Keith a Jackie, a Carolyn a Jim. Roedd hefyd yn nain a hen nain hoffus. Roedd yn wraig annwyl a thawel, ond yn hoffi sgwrs â phawb. Bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys Gatholig Richard Gwyn hyd nes i'w hiechyd dorri. Cynhaliwyd ei hangladd ar fore Gwener, 30 Mehefin, yn eglwys a mynwent Coetmor gyda'r Tad Adrian Morrin yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd yn eich colled.

**Ysbyty**

Bu sawl un yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall fod rhai gartref erbyn hyn ac yn gwella yn raddol. Cofion a dymuniadau gorau atoch i gyd:- Mr. Elfed Jones, Ffordd Ffrydlas; Mrs. Val Amos, Glanogwen; Mrs. Gwenda Jones, Glan Ffrydlas; Mr. Frank Thomas, Glanogwen; Mrs. Blodwen Cavanagh, Maes y Garnedd; Mrs. Jean Ogwen Jones, Ystad Coetmor; Mr. Alan Jones, Bryntirion.

**Damweiniau**

Cael damwain yn yr ardd fu hanes dwy wraig yn Adwy'r Nant, sef Mrs. Glenys Rowlands a Dilys Margaret Pritchard. Da deall eich bod yn gwella! Cofion atoch!

**Gorffwysfan, Stryd Fawr**

Ar ddydd Iau, 8fed Mehefin, aeth yr aelodau ar wibdaith o amgylch Sir Fôn, gan alw yn Pringle's, Llanfairpwll am goffi ac i siopa. Yna i Biwmares am ginio cyn mynd ymlaen drwy Bentraeth a Benllech i bentref Moelfre.. Yno ymwelwyd â chwt y Bad Achub a chofgolofn Dick Evans. Yna adref drwy Gaergybi ac i gaffi Coed y Brenin, Bethesda, i gael te prynhawn ardderchog wedi ei baratoi gan Karen a'r staff. Diolchwyd am y te a'r trefniadau gan Mr. Edric Jones.



**Darlith Goffa Dafydd Orwig**
Daeth cynulleidfa gref ynghyd i Lyfrgell Gyhoeddus Bethesda ar nos Lun, 12 Mehefin, i wrando ar gyflwyniad ardderchog yr Athro Jason Walford Davies, yn traddodi darlith ar "R. S. Thomas: O Gymru i Ffrainc". Yn y llun mae llywydd y noson, y Prifardd Ieuan Wyn, gyda'r darlithydd a theulu'r diweddar Dafydd Orwig.



**Bob Temp yn "Snowdonia Rocks"**
Yn rhifyn diwethaf y Llais soniwyd y byddai Robert Morris (Bob Temp) a'r band yn chwarae yn "Snowdonia Rocks"ar 25 Mehefin. Gig a drerfnwyd gan Mike Peters ac Awyr Las i godi arian at Ward Alaw ac elusennau cancr. Mae Bob, fel Mike, yn dioddef o'r cancr ei hun.

**Cyfeillion Ysbyty Gwynedd**
Ar ddydd Sadwrn, 1af Gorffennaf, yn Ysgoldy Capel Rhos y Gad, Llanfairpwll, cafwyd prynhawn difyr "Paned a Chacen", wedi ei drefnu gan Dorothy a Glyn Hughes, Llanfairpwll. Cafwyd prynhawn prysur, a phawb wedi mwynhau, gydag elw o £455.00 tuag at waith y Cyfeillion. Diolch yn fawr iawn i Dorothy, Glyn a'u cyfeillion am drefnu.

**Ymwelwyr o Ganada**
Cafwyd pnawn difyr iawn yng nghaffi Coed y Brenin yn ddiweddar pan ddaeth teulu a ffrindiau ysgol ynghyd i roi croeso adref i un o genod y fro. Drigain mlynedd i'r haf yma teithiodd Gwenhefin Evans o Giltwllan ar long yr Empress of Scotland o Lerpwl i Ganada, gan fwriadu aros a gweithio yno am ddwy flynedd. Mae Gwen yno o hyd ac yn dal i gadw



mewn cysylltiad agos â theulu a ffrindiau ysgol a threfnwyd syrpreis ar ei chyfer gan ei chyfnither, Glenys o Adwy'r Nant. Cafwyd pnawn hwyliog a difyr yn hel atgofion.

**Diolch**
Hoffai Janet Hughes, Stâd Coetmor, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau, a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl, yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn am bopeth.

**Y lluniau**
David Nicholas (ffrind ysgol), a'i wraig Mary, Gwen a'i merch Laurie o Port Elgin, Ontario yn mwynhau tê arbennig iawn. Win, Heulwen a Catherine, ffrindiau ysgol. Glenys, fu'n trefnu'n ddirgel a diwyd a merched Coed y Brenin fu'n paratoi gwledd ardderchog ar eu cyfer. Mi fydd Gwen yn derbyn rhai o erthyglau a lluniau o'r Llais yn aml ac mae wrth ei bodd yn darllen hanes yr ardal.



Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead Cyf**

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

constructionline NICEIC ECA CHAS

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*
Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106*
*Amlwch (01407) 831777*
*Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616*
*Pwllheli (01758) 703000*

Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.
Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -
Ffoniwch
01248 601164

CHRIS GRIFFITHS
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

## Pentir

**Eglwys St Cedol, Pentir**
**Clwb 100 Mis Mehefin 2017**

| | | |
|---|---|---|
| 1af. | Rhif 42 | Helen Burbage, Rhiwlas |
| 2ail. | Rhif 33 | Nia Roberts, Rhiwlas |
| 3ydd | Rhif 4 | Gaynor Perry, Nant y Garth |

**Caws a Gwin**

Cynhaliwyd Noson o Gaws a Gwin yn Y Ganolfan Glasinfryn ar Nos Sadwrn 24 Mehefin am 6.30yh. 'Roedd yn noson hwyliog a llwyddiannus. Llawer o ddiolch am y gefnogaeth.

**Cerdd a Llên**

Bydd noson o Cerdd a Llên yn cael ei chynnal yn Eglwys St. Cedol, Pentir, Nos Wener 18 Awst am 7yh. Ymysg yr eitemau i'n diddannu bydd artistiaid lleol, gyda Sharon yn chwarae'r organ a Sioned yn chwarae darnau i'r clarinet, gyda deuawd brin i glarinet bâs ac organ. Hefyd bydd grwp lleol yn canu'r ukelele, a bydd ambell i eitem arall yn ystod yr noson. Bydd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y noson. Mae croeso cynnes i bawb!

**Gwasanaethau'r Sul**

Mae'r gwasanaethu am 9.45yb

| | |
|---|---|
| 23.7.17 | Boreol Weddi |
| 30.7.17 | Gwasanaeth ar y cyd yn eglwys St. Cedol |
| 6.8.17 | Cymun Pawb |
| 13.8.17 | Boreol Weddi |
| 20.8.17 | Cymun Bendigaid |
| 27.8.17 | Boreol Weddi |

Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y gwasanaethau.

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini*

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

GWASANAETH GLANHAU HUGHES
5 Pant Caerhun, Bangor, LL57 4DS (Y cwmni glanhau tu allan cyflawn)
Glanhau ffenestri: Golchi landeri, facsias a soffits.
Gwagio landeri gyda Sky Vacs a CCTV
Golchi 'meddal' – patios,"decking" a llwybrau
Golchi toeau ystafelloedd gwydr
Gofynnwch am Nicky ar 01248 355908 neu 07999 376250
pamela-stwnch@hotmail.co.uk

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

## Y Gerlan

**Ann a Dafydd Fôn Williams,**
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan ☎ 601583

**Symud cartref**
Mae Richard, Bethan, a Dei Madog wedi gadael y Gerlan yn ddiweddar, a symud i fyw i lawr i Bantglas. Rydym yn dymuno'r gorau i chi fel teulu yn eich cartref newydd.

**Nain**
Llongyfarchiadau mawr i Angela Davies, Rallt Isaf, ar ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd mab bychan, Ifan, i'w mab, Kevin a'i bartner, Sophie, sy'n byw yng Nglanafon, Bethesda. Mae'n sicr fod croeso mawr i Ifan gan y teulu i gyd, ac, yn arbennig felly, gan ei dri brawd mawr, Tom, Jac, a Hari.

SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Copa

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

**Dyweddio**
Llongyfarchiadau mawr i Annie a Carwyn, Stryd y Ffynnon, ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch i'r dyfodol

**Hen daid**
Rydym yn llongyfarch Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan ar ddod yn hen daid unwaith eto. Ganed merch fach, Isla Haf, i'w ŵyr, Simon a'i wraig, Kerry, sydd bellach yn byw yng Nghaer. Mae Isla yn chwaer fach i Imogen Mai. Pob dymuniad da i bawb.

**Penblwydd arbennig**
Yn ddiweddar bu i Rhiannon Sturrs, Stryd y Ffynnon, ddathlu ei phenblwydd yn 60 oed. Llongyfarchiadau mawr iti, Rhiannon. Gobeithio iti fwynhau'r dathlu gyda'r teulu. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**Cadeirydd y Cyngor**
Rydym yn llongyfarch Linda Brown, Gwernydd, ar gael ei hethol yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda am y flwyddyn 2017 – 2018. Rydym yn sicr y bydd yn gwneud gwaith arbennig yn llywio'r Cyngor.

**Dathlu'r Hanner Cant**
Yn ddiweddar dathlodd Huw Davies, Tŷ Dŵr, ei benblwydd yn 50 oed. Llongyfarchiadau mawr iti, Huw, gobeithiwn iti fwynhau'r diwrnod a'r dathlu. Rydym yn dymuno pob hwyl iti i'r dyfodol

**Profedigaeth**
Rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwys i Eifion Rowlands, ac Emily, a'r teulu, Ffordd Gerlan, a Sian a Dafydd, a'r teulu, hwythau o Ffordd Gerlan, yn eu profedigaeth fawr iawn o golli brawd Eifion a Sian, sef y diweddar Dylan Rowlands, oedd yn trigo ym Mynydd Llandygai. Gŵr ifanc oedd Dylan, a bydd colled fawr ar ei ôl gan y teulu i gyd.

**Y Dyn Gwyllt**
Braf iawn oedd gweld un o drigolion y Gerlan yn ei raglen deledu ei hun yn ddiweddar. Sôn yr wyf am Carwyn Jones, sy'n byw yn Stryd y Ffynnon. Carwyn yw'r Dyn Gwyllt, nid am ei fod yn berson gwyllt, ond am ei fod byw yn y gwyllt, gan ddibynnu ar ei allu ei hun yn unig i oroesi yno. Yn yr ail gyfres o'r Dyn Gwyllt, cafwyd tair rhaglen yn dilyn hynt a helynt Carwyn yn byw yn y gwyllt. Rhaglenni da iawn, Carwyn, ac roedd yn arbennig cael dy weld yn byw fel hyn. Gobeithiwn am raglen arall gyffelyb yn fuan.

**Gwyliau hapus**
Gan na fydd y Llais yn ymddangos ym mis Awst rydym yn dymuno haf hapus i bawb o'r ardal. Hefyd, dymunwn haf llwyddiannus iawn i blant a phobl ifanc yr ardal fydd wedi cael canlyniadau eu arholiadau cyn y daw'r Llais allan fis Medi. Pob hwyl i chi i gyd!

# Llythyr

4 Gorffennaf 2017

Annwyl ddarllenwyr,
Ymunwch â ni i ddathlu a mwynhau Cig Oen Cymru eto eleni ar y 1af o Awst, sef diwrnod 'Calan Awst – Calan Oen'!

Dyma ddiwrnod i dynnu sylw pobl ledled Cymru a thu hwnt at un o gynhyrchion gorau ein gwlad! Mae ein cig oen lleol, sydd wedi ennill statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) am ei safon, ar ei orau yn yr haf a'r hydref ac ar gael yn helaeth yn y siopau bryd hynny.

Mae'r haf, wrth gwrs, yn dymor y barbeciw, felly beth am gyfuno dau o bleserau bywyd gan goginio Cig Oen Cymru yn yr awyr agored a lledaenu'r neges am y cig cyfareddol sydd wedi'i gynhyrchu ar garreg ein drws!

Byddwn ni'n cynnal sawl digwyddiad i nodi'r diwrnod, yn cynnwys cinio arbennig yn Llundain a thaith o amgylch rhai o archfarchnadoedd ein prif drefi yn ystod mis Awst. Bydd sawl cyfle i flasu'r cig a chael syniadau am rysetiau tymhorol hefyd.

Felly, beth am ein helpu i hyrwyddo Cig Oen Cymru'r haf hwn? Rhannwch eich lluniau gyda ni, o'ch barbeciw blasus gyda theulu a ffrindiau neu o'ch hoff bryd bwyd yn cynnwys Cig Oen Cymru ar ei orau! Cofiwch gynnwys yr hashnod #CalanOen a'n canlyn ar y cyfryngau cymdeithasol i gael dilyn hynt a helynt y diwrnod a'r dathliadau!

Mwynhewch y gwledda!
**Rhys Llywelyn**
Hybu Cig Cymru, Aberystwyth.

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195




BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Chwip o Sioe!













Dawns Dyffryn Derw – Clwb Crawia

Gwledd o gerddoriaeth wreiddiol, twyll, dawnsio a gwrach arwrol. Na, nid nos Wener arferol yn Nyffryn Ogwen oedd hon. O na! Ddiwedd Mehefin fe siglwyd y Dyffryn gan sioe gerdd wefreiddiol “Dawns Dyffryn Derw”, yn cael ei pherfformio gan ddisgyblion Clwb Drama Crawia. Angharad Llwyd Beech ( neu Mam Gruff a Gwenno i bawb yn y Dyffryn! )oedd wrth y llyw,yn sgriptio a chyfarwyddo, a neb llai nag Ynyr Llwyd yn gyfrifol am y gerddoriaeth wreiddiol. (Di o’n rhedeg yn y teulu dwch? gol.) Yr ysgol wedi mynd â’i phen iddi, ymweliad arfaethedig arolygwyr Estyn, llygod yn bla ar hyd y lle – doedd dim gobaith adfer y sefyllfa nag oedd? Ond nid ysgol gyffredin oedd hon, nid disgyblion cyffredin oedd ynddi, nac athrawon chwaith. Doedd yr anifeiliaid bychan oedd yn llechu yn y corneli budron chwaith ddim fel yr arfer; roedd rhywbeth neilltuol am yr ysgol fach hon. (Canu cloch? gol.) Fe gludwyd y gynulleidfa ar chwyrligwgan o daith i weld oedd hi, wir, yn bosib achub yr ysgol. Ac roedd cymaint o broblemau i’w datrys: a fyddai’r disgyblion yn llwyddo i achub yr ysgol? A fyddai ffrindiau Ffion yn darganfod ei “Chyfrinach Fawr” (sori, methu peidio! gol.) Pwy oedd am ennill y gystadleuaeth ddawnsio? Mewn bwrlwm o hud a lledrith cafwyd gwledd yn gwylio plant a phobl ifanc amryddawn y Dyffryn yn ein cludo i fyd o hud a lledrith, ac yn dod â’r cyfan yn fyw o flaen ein llygaid. Chwip o sioe a chwip o syniad. Roedd Neuadd Ogwen dan ei sang, a phawb yn tystio i’r fraint a’r anrhydedd sy’n ein meddiant o gael byw mewn ardal a bod yn rhan o ddiwylliant mor arbennig.

Llongyfarchiadau enfawr i bawb fu ynghlwm â’r cynhyrchiad.











Sefydlwyd y clwb ddiwedd mis Hydref y llynedd, ac mae croeso yno i ddisgyblion rhwng 7 a 15 oed i ymuno. Angharad Llwyd Beech sydd wrth y llyw, sy'n wyneb cyfarwydd ar S4C yn y gyfres boblogaidd "Rownd a Rownd," gyda llu o gyfranwyr profiadol eraill yn cynnig eu gwasanaeth mewn meysydd fel ysgrifennu, cynllunio set, sgiliau technegol ayb.
Cynhelir y clwb ar nosweithiau Iau yn Neuadd Ogwen. Cysyllter os ydych am ymuno!
**post@neuaddogwen.com**
**www.neuaddogwen.com**
**01248 605388**



## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards**, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

**Eglwys Sant Tegai, Llandygâi**

*Llongyfarchiadau Priodas*

Pob dymuniad da i Sandra Ball a Liam Christopher Kearns ar achlysur eu priodas ar Fehefin 17eg yn Eglwys St Tegai. Gwenodd yr haul ar y cwpl lwcus.

*Cydymdeimlo*

Gyda thristwch rydym yn cofnodi marwolaeth cyn ficer y plwyf, sef y Parchedig Mervyn Price Roberts. Cynhaliwyd yr angladd yn yr amlosgfa ar ddydd Mercher Mehefin 27ain gyda'r Parchedig John Matthews, ficer presennol St Tegai yn gweinyddu. Roedd y dorf yn yr amlosgfa yn dystiolaeth amlwg o fywyd a gwaith y Parchedig Price Roberts fel athro ac offeiriad. Anfonwn ein cydymdeimlad i'w fab Gerallt ac i'r teulu oll.

**Ysgol Llandygai**

Fel cynulleidfa, estynnwn ein llongyfarchiadau i Mrs Emma Davies ar ei phenodiad fel Dirprwy Bennaeth ein hysgol eglwysig. Pob bendith arni yn ei gwaith.

*Garddwest y Tair Eglwys Gorffennaf 1af 2017*

Diolch i bawb a gyfranodd i'r Arddwest flynyddol ar brynhawn Sadwrn Gorffennaf 1af 2017 rhwng 1 a 4 o'r gloch yn Ficerdy Pentir. Ar ôl y glaw mawr daeth yr haul i'n cynhesu, a nifer fawr o ymwelwyr i gefnogi'r achos. Diolch i Mr Neville Hughes, un o "Hogia Llandegai", am gytuno i agor yr arddwest ac i'r Parchedig John Matthews a Mrs Sue Matthews am agor eu gardd ar gyfer y prynhawn. Trefnwyd y Raffl Fawr gan Miss Nerys Jones, St Tegai a mawr yw ein dyled i unigolion a busnesau lleol am eu rhoddion hael fel gwobrau. Diolch yn fawr i bawb am werthu ac i'r unigolion ar y stondinau.

*Aelod newydd o St Tegai*

Llongyfarchiadau i Sarah a Kevin McSorley Jones er enedigaeth Charlotte Louise. Mae Hannah ac Emily wedi gwirioni ar eu chwaer fach ac wrth gwrs mae nain, Mrs Avril Williams, wrth ei bodd!

*Gweithgareddau'r Haf*

Gorffennaf 16eg am 11yb Offeren Arbennig i gyflwyno cyfieithiad o feddargraff Archesgob John Williams gan frodorion Coleg St Ioan, Caergrawnt. Lluniaeth ysgafn i ddilyn yn Neuadd Talgai.
Gorffennaf 23ain am 5yh Gwasanaeth Taize. Croeso i bawb.
Sadwrn Gŵyl y Banc Awst 26ain Garddwest St Tegai, Parc Penrhyn yn y prynhawn. Stondinau, adloniant a lluniaeth. Noddir yr achlysur gan Mr a Mrs Richard Douglas Pennant. Croeso i bawb.

**Amseroedd gwasanaethau Sant Tegai**

Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.

Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

**Dymuno gwellhad**

Gwellhad buan i Mrs Liz Jones,21 Pentre Llandygai.Mae wedi treulio dau gyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn dymuno'n dda iddi. Mae hi'n gymwynasgar iawn yn y pentref.

## Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Braf iawn i ni fel cangen ydy llongyfarch Hywel Williams am gael ei ethol unwaith eto fel ein Haelod Seneddol. Fel y gwyddom mae wedi bod o gymorth mawr i nifer yn yr ardal yn y gorffennol a bydd yr un mor hapus i helpu a chefnogi ei holl etholwyr yn y dyfodol.

Mae gan ein pedwar Cynghorydd Sir bellach dudalen ar y gweplyfr lle gallwch eu dilyn a gweld ôl eu gwaith yn y dyffryn. Eu tudalen yw "Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen" ac fe gewch eu manylion cyswllt yno hefyd. Os nad ar 'facebook' yna mae eu manylion i'w gweld yma yn Llais Ogwen.

Mae'r pedwar cynghorydd hefyd wedi trefnu i ddod at ei gilydd er mwyn ceisio gweld beth sy'n bosib ei wneud ynglyn â thorri gwair yn yr ardal sydd yn poeni llawer o'r trigolion.

Braf yw gweld hefyd bod nifer o drigolion yr ardal yn dod at ei gilydd er mwyn tacluso a chasglu sbwriel yn yr ardal dan"ymbarel" Partneriaeth Ogwen.

Pob hwyl i bawb dros wyliau'r haf. Bydd mwy o newyddion a digwyddiadau yng ngholofn Plaid Cymru ym mis Medi.

**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

**L. Sturrs a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
**Hen Iard Stesion, Ffordd y Stesion, Bethesda**
**Ffôn: 600953**
**lsturrs@googlemail.com**

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

山田派糸東流修交会空手道
KARATE-DO
Y FFORDD WAGLAW
KARATE SHUKOKAI BETHESDA
Yn Plas Ffrancon


NOS FAWRTH A NOS IAU
7 TAN 8 O'R GLOCH I BLANT HYD AT 12 OED
8-9 O'R GLOCH I BLANT DROS 13 OED AC OEDOLION
I SICRHAU EICH LLE YN Y CLWB:
FFON: 07595 361624
Ebost: shukokaiwales@icloud.com
Y We: www.shukokai-wales.com
hoffi ni ar facebook facebook.com/shukokainorthwales



I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853


# Croesair Llais Ogwan

**AR DRAWS**

1 Yr holl gynulleidfa (4)
5 Pendefig Dyfed yn bod yn ofalus iawn (4)
7 Chwim-chwam (7)
8 Felly a ddwg iachad, wrth roi triniaeth mewn ysbyty (8)
10 Fyny grisiau i'r gog, lan ---- i'r hwntw (4)
12 Arwydd cyntaf fod pysgodyn ar flaen yr enwair (4)
14 Ymlaen ac ymlaen ac ymlaen**....** (8)
16 Y storm aeth yn dawelach (8)
17 ---- blentyn, heb frawd na chwaer (4)
18 Beth wneid i roi "deg am ddime, ond unarddeg i mi" (4)
19 Rhoi dy farn gymysg mewn cant am y llyn ger Capel Curig (8)
22 Gerallt oedd un y Talwrn a'r Ymryson am flynyddoedd lawer (1,6)
23 Yr hogyn mewn cysgod angau (4)
24 Fel 11 I Lawr, ond yn fyrrach (4)

**I LAWR**

1 Gwenyn dryslyd yn llipa wrth ei gasglu (4)
2 Braf yn chwil efo blew ar dy wyneb (4)
3 Brest un sy'n meddwl llawer ohono'i hun (8)
4 Amser, &X (4)
5 'O cau fy llygaid rhag im weld, -------- gwag y byd' (*W.W. Pantycelyn)* (8)
6 Oddi tanoch (4)
9 Ei symud i rywle arall (7)
11 Roedd rhai Stanley yn canu pop erstalwm, fel llu nefol tybed (7)
13 Cartref Jaci Soch efallai (3,5)
15 Ysgwn i gewch chi grempog ar ddiwrnod y duw rhyfel (3,5)
18 Toriad mewn dilledyn (4)
19 Mewn chwe niwrnod medd y llyfr cyntaf, yna gorffwys (4)
20 'Hwnna' yn Rhosllannerchrugog, a'u papur bro lleol (4)
21 ---- Heddwch, neuadd enwog yng Nghaerdydd (4)



**ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2017**
**AR DRAWS** 1 Hwyl, 3 Cyllid 7 Cymylu/ Tywyllu 8 Fandal, 9 Iago Mab, 10 Araf, 11 Agoriadol, 16 Twca, 17 Hwyaden, 19 Troelli, 20 Ewyllys, 21 Neuadd, 22 Polo
**I LAWR** 1 Hwylio, 2 Ymysg, 3 Cofeb, 4 Llanbabo, 5 Dramau, 6 Murmur, 12 Gwaredu, 13 Amynedd, 14 Awyren, 15 Anwylo, 17 Heirdd, 18 Dwylo

Nifer fychan iawn o gamgymeriadau a gafwyd y tro yma. Rhoddwyd 'bwya' yn lle'r gair am gyllell 'twca', a chafwyd 'troellu' yn lle 'troelli', gwall bychan ond yn anffodus roedd yr 'u' yn troi'r ateb cywir 'heirdd' yn 'heurdd' hefyd. Derbyniais yn gywir ddau ateb i 7 Ar Draws gan fod y ddau yn ffitio'r cliw; eich hanner yn cynnig 'tywyllu' a'r hanner arall wedi rhoi 'cymylu'. Mwynhewch wyliau'r haf, a chawn eich cwmni eto ym mis Medi gobeithio.

Canmoliaeth i'r canlynol am atebion hollol gywir: Dilys Wyn Griffith, Abergele; Evelyn Lupson, Pensby, Cilgwri; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Angharad Watkins a Huw Pritchard, Caerdydd; Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont; Myra a Gwilym Evans, Niwbwrch; Lowri Evans, Llanllechid; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Gwen Griffith, Deiniolen; Myfanwy Jones, Gaerwen; Gareth William Jones, Bow Street; Gaynor Elis-Williams, Ann Carran, Catherine Boulting, Bethesda.

Ond aiff y wobr y tro hwn gyda llongyfarchion lu i Rita Bullock, Penffordd, 8 Maes-y-Garnedd, Bethesda, Bangor LL57 3BP.

Atebion erbyn 25 Awst, 2017 i 'Croesair Gorffennaf', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

**Atebion erbyn 25 Awst, 2017 i 'Croesair Gorffennaf'**
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

**Enw**

**Cyfeiriad**

# gair neu ddau

John Pritchard

## Glanhau

Pan nad oes dim arall i'w gael mi ddarllenwn ni'r pethau mwyaf annisgwyl. Dyna ddigwyddodd i mi'r dydd o'r blaen pan ddechreuais ddarllen llyfr Marie Kondo ar y grefft o dacluso neu glirio. Yn ôl teitl y llyfr, mae clirio yn medru bod yn gyfrwng i newid bywyd. Ychydig dudalennau yn unig a ddarllenais, ond roedd hynny'n ddigon i ddangos mor bell wyf fi o'r ddelfryd y mae'r awdur yn ei disgrifio. Un cyngor defnyddiol a all fod o fudd i mi wrth feddwl am glirio yw bod rhaid mynd i'r afael â phethau i ddechrau yn hytrach na lle. Os am glirio'n iawn, meddai Kondo, nid mynd i'r afael â phob ystafell neu gwpwrdd yn eu tro y dylem ei wneud ond yn hytrach daclo un math o beth ar y tro. Gwell, meddai, yw clirio pob dilledyn efo'i gilydd, a phob llyfr a darn o bapur ac ati, ac yna symud ymlaen at y peth nesaf, yn hytrach na dim ond clirio un cwpwrdd neu un ystafell. Gallaf weld bod hynny'n gwneud synnwyr gan fy mod i'n dueddol o glirio cwpwrdd a rhoi'r cyfan bron yn ei ôl. Ond, wn i ddim pryd y rhof gynnig ar ddilyn cyngor Kondo chwaith.

Yr hyn a'm trawodd o ddarllen ond ychydig o'r llyfr oedd bod y grefft o glirio'n cael ei disgrifio fel peth ysbrydol, yn ymylu ar ryw fath o grefydd. Roedd pwyslais mawr ar y llawenydd y mae pethau yn ei ddwyn i ni, a'r egwyddor fawr oedd mai dim ond y pethau sy'n rhoi gwir lawenydd i ni y dylem eu cadw. Gallwn, ac fe ddylem gael gwared â phopeth sydd yn llenwi ein bywydau â'r llawenydd hwn. Dyw'r llyfr ddim gen i erbyn hyn, ac rwyf wedi anghofio llawer o'r hyn a ddarllenais, ond yr argraff a gawn oedd bod y broses o ystyried gwerth pethau ac o benderfynu gwared â phethau yn debyg i edifeirwch a chefnu ar bechodau. Does dim gwadu y gall tŷ glân a thaclus fod yn gysur mawr, ond mae'n anodd gen i gredu mai dyna a ddaw â'r gwir lawenydd i fywyd unrhyw un. Siawns fod mwy i fywyd na thaclusrwydd a thŷ glân, er mor ddymunol a gwerthfawr yw hynny.

Neges fawr yr Efengyl yw mai yn yr Arglwydd Iesu Grist y mae gwir lawenydd a bodlonrwydd i'w gael. Mae miliynau o bobl wedi canfod hynny wrth iddynt ddarllen y Beibl a chael eu hargyhoeddi o wirionedd ei neges. Ac fe ddigwyddodd hynny i lawer yn annisgwyl, wrth iddynt afael mewn copi o'r Beibl – o bosibl am nad oedd unrhyw beth arall i'w ddarllen ar y pryd – a chlywed llais Duw yn siarad â nhw am ei gariad anferthol tuag atynt yn ei Fab Iesu, ac am y glanhad a geir trwyddo ef i bob pechod a bai.

# Llechi a Llafur



Lluniau: Emyr Roberts










# Ysgol Llanllechid





### Galeri

Bu côr Ysgol Llanllechid yn perfformio mewn cyngerdd arbennig yn Galeri, Caernarfon ar y thema Mabinogi ar Gân gydag artistiaid eraill, yn cynnwys Côr Ieuenctid Môn, Côr Siambr William Mathias a Mair Tomos Ifans yn storiwraig. Diolch i Mr Huw Edward Jones am ei waith yn hyfforddi'r côr i safon mor uchel. Cafwyd noson fendigedig a'r côr yn perfformio dwy gân yn llawn arddeliad gyda chyfeiliant arbennig Mrs Ann Peters Jones. Diolch i Mrs Sioned Webb am y gwahoddiad i gael gymryd rhan, i'r rhieni am bob cymorth ac i'r plant fel arfer am roi o'u gorau glas.

### Cydymdeimlo

Gyda thristwch mawr y derbyniodd yr ysgol y newyddion ysgytwol am farwolaeth Mr Dylan Richard Rowlands, sef tad Dion sydd yn ddisgybl ym mlwyddyn 2. Mae ein cofion anwylaf yn mynd atoch chi fel teulu yn yr amser anodd hwn.

### Wyddfa

Gan ddilyn yr arferiad blynyddol fe lwyddodd disgyblion blwyddyn 6 i gyrraedd copa'r Wyddfa o dan arweiniad Cemlyn Jones a Morfudd Thomas. Roedd y disgyblion yn wych – yn llwyddo i gyrraedd y copa gan ymfalchio yn eu sgiliau o weithio fel tîm. Diolch i Mr Huw Edward Jones a Mr Stephen Jones am sicrhau profiadau gwych i'r plant, a llongyfarchiadau i Mrs Davies Jones a Miss Nicola ar eu camp hwythau o gyrraedd y copa!

### Rhieni newydd

Cafwyd prynhawn hyfryd ddechrau mis Mehefin wrth i'r ysgol groesawu disgyblion y dyfodol a'u rhieni. Roedd y neuadd yn orlawn a chafwyd prynhawn difyr o rannu gwybodaeth am yr ysgol gan Mrs Davies Jones yn ogystal â straeon gan y disgyblion. Bu'r plant bach yn brysur yn chwarae ac yn peintio – ac roeddent yn ddigon o sioe! Croeso atom i Ysgol Llanllechid.

### Llyn Brenig

Bu disgyblion blynyddoedd 2 a 3 ar daith arbennig i Lyn Brenig, gan ddysgu llawer am fyd natur. Buont yn trochi yn y pwll yn chwilio am bryfetach, gan edrych yn ofalus drwy'r meicrosgôp, yn ogystal â cherdded o amgylch y llyn. Cawsant sesiwn yn dysgu am ailgylchu a pha mor bwysig yw'r ymdrech honno.

### Eisteddfod Llangollen

Ar ddiwrnod o hâf aeth disgyblion blynyddoedd 2 a 3 i Eisteddfod Ryngwladol Llangollen i gael blas ar ddiwylliant a cherddoriaeth y byd. Cawsant sesiwn ddifyr yn gwrando ar gerddoriaeth o Peru, gan ryfeddu at yr offerynnau traddodiaol sydd yn cael eu chwarae yno. Roeddent wedi dotio ar y breichledau hyfryd a arddangoswyd gan frodorion o India. Roedd eraill wedi rhyfeddu gyda'r tylluanod a'r holl ddawnsio, a chael cyfarfod plant o ysgolion eraill! Ond mae'n siwr mai un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd cael mwynhau'r hufen ia blasus!

### Mrs Helen Williams

Mae gennym feddwl mawr o Mrs Helen Williams. Mae hi'n berson arbennig ac yn halen y ddaear. Ond mae'n debyg fod gan Mrs Williams dipyn o feddwl o blant yr ysgol hefyd, oherwydd cafodd disgyblion y dosbarth derbyn ymweliad yn ddiweddar gan Mrs Williams. A wyddoch chi be? Roedd ganddi fasged yn ei dwylo yn llawn o dedis bach oedd Mrs Williams wedi eu gweu ar gyfer y plant. Roedd pob tedi wedi




cymryd rhyw awr i Mrs Williams eu gweu – tipyn o ymdrech a'r cyfan oherwydd ei bod wedi ei swyno gan gyfraniadau y plant mewn cyngherddau yn ystod y flwyddyn. Roedd yr holl blant yn ddiolchgar iddi, ac un wedi mynd i gryn drafferth i ysgrifennu cerdyn diolch arbennig yn ôl i Mrs Williams. Oedd wir, roedd Ela Lois Williams wedi ysgrifennu cerdyn hyfryd i Mrs Williams a'r ysgrifen arbennig yn lliwiau'r rhuban oedd o amgylch gwddw y tedi. Diolch i Mrs Williams am fod mor garedig ac i Ela am ei hymdrech gampus.

### Noson ffilm

Braf oedd gweld neuadd yr ysgol yn orlawn ar gyfer dau ddangosiad o ffilmiau fel rhan o waith bendigedig cyfeillion yr ysgol. Rydym bob tro yn ddiolchgar i'r cyfeillion am eu gwaith yn codi arian ar gyfer yr ysgol ac roedd y syniad diweddaraf hwn yn boblogaidd iawn gyda'r disgyblion. Ac yn ôl pob sôn, roedd y popcorn yn flasus iawn!

### Athletau

Llongyfarchiadau i dîm ras gyfnewid yr ysgol sef Efa, Tiah, Madeline ac Ella, ar ddod i'r brig yng nghystadleuaeth Eryri. Llongyfarchiadau yn ogystal i Madeline ar ennill y wobr gyntaf yn y ras traws gwlad i ferched blwyddyn 5 yn y Faenol yn ddiweddar. Rydym yn falch iawn ohonoch i gyd!

### Clwb Hanes Rachub

Cafodd dosbarth blwydyn 4 wahoddiad gan Glwb Hanes Rachub i roi cyflwyniad i'r aelodau ar yr hyn a ddysgwyd yn eu dosbarth am eu hanes lleol. Bu dros 30 o ddisgyblion yn brysur iawn yn canu ac yn actio hanesion a seiliwyd ar fywydau cymeriadau arbennig o'r ardal, sef Madam Chips, Robat Jôs Gwich, William Morgan, William Griffith Hen Barc a William Ellis Williams. Roedd y plant ar eu gorau, a'r gynulleidfa wedi gwirioni. Diolch i bawb!

### Glynllifon

Aeth blwyddyn 4 i Glynllifon er mwyn dysgu am bobl sy'n gweithio gydag anifeiliaid, a bywyd cefn gwlad. Cafwyd cyfle i bysgota, ac i weld adar a chwn hela yn cael eu hyfforddi. Dysgwyd am anifeiliaid fel y wiwer goch, tylluanod, ffesantod, dyfrgwn a phob math o greaduriaid. Diwrnod gwerth chweil.

### Llyfr Rysetiau

Mae cyfeillion yr ysgol yn awyddus i gynhyrchu llyfr ryseitiau arbennig i Ysgol Llanllechid. Os oes gennych rysait yr hoffech ei rhannu a fuasech cystal ag e bostio Angharad Llwyd Beech ar angharadllwyd@hotmail.com pan gewh gyfle. Diolch yn fawr. Haf hapus!

Haf hapus i bob un ohonoch a bydd y disgyblion yn ôl yn yr ysgol ar Fedi 5ed!

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda ☎ 600853

**Cymdogion newydd**
Mae hi wastad yn braf cael croesawu trigolion newydd i dai gweigion yn y pentref. Felly, croeso arbennig i Sei a Cathy i 'Cap Coch', 1 Tyddyn Cottages, ac i Laura Chadwick Roberts i rif 4 Dolhelyg. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartrefi newydd. Mae Sheila a Michael Chadwick, 1 Cae Bach yn falch iawn o gael eu hwyres yn eu hymyl.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn gydymdeimlad dwys at Carys a Peter Fox a'r teulu, Bwthyn Tŷ Mawr. Bu farw tad Carys, Mr. Eric Gray-Thomas, ar y 5ed o Fehefin yng Nghaernarfon.

**Agor 'Y Llechan'**
Bu hen drafod a dyfalu ers rai misoedd sut yr edrychai Tŷ Uchaf (Abbeyfield, yn ddiweddarach) ar ei newydd wedd, ac wele, dyma wahoddiad yn cyrraedd pob tŷ yn Nhalybont a Llandygai inni fynd, am 5 o'r gloch ar Hirddydd Haf, i gyfarfod â'r perchnogion newydd a'r staff, ac i gael diod ar 'Y Llechan'. Manteisiodd nifer fawr ohonom ar y cynnig hael, a chael ein plesio'n arw gan awyrgylch chwaethus y dafarn a'r croeso cynnes a gawsom gan Ben, Kelly a'r criw o bobl ifainc, dwyieithog, o'r ardal, sy'n gweini wrth y byrddau, neu y tu ôl i'r bar.

Mae Ben a Kelly yn anelu'n uchel. Mae'r 'Llechan' lawer iawn mwy na thŷ tafarn yn unig. Cynigir amrywiaeth eang o fwyd o safon uchel, a llety moethus. Mae'r pâr yn ifanc, yn frwdfrydig ac yn barod i weithio'n galed i sicrhâu bod eu cynlluniau'n dwyn ffrwyth. Dymunwn bob rhwydd hynt a llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

**Damwain**
Cafodd Lis, 2 Min Ogwen, godwm cas iawn yn ei chartref. Gobeithio na fydd yn hir cyn bydd y cleisiau i gyd wedi diflannu, Lis, ac y byddi'n teimlo'n well o lawer.

Braf yw gweld Liz arall, sef Liz Humphries, 6. Lôn Ddŵr ar ei thraed unwaith eto, er bod ganddi sbel o ffordd i fynd eto, nes y bydd yn gallu cerdded yn iawn.

**Eglwys Sant Cross**
*Te Mefus*
Ar y trydydd Sadwrn o fis Mehefin, cynhaliwyd ein Te Mefus blynyddol yn yr Ysgoldy.

Daeth nifer dda i gefnogi'r achlysur ar b'nawn braf a phoeth. Roedd llawer yn eistedd y tu allan i fwynhau'r bwyd. Diolch i bawb am y rhoddion at y Raffl a'r Tombola ac at y gwahanol stondinau. Diolch i Dennis a Beryl Wright am drefnu'r p'nawn difyr a'r bwyd blasus. Gwnaed elw o £800.

*Garddwest*
Braf oedd gweld cymaint wedi dod ynghyd i gefnogi Garddwest y Tair Eglwys ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis hwn. Diolch i bawb!

*Wythnos Gwirfoddolwyr*
Llongyfarchiadau i Dorothy Hanks, Tal-y-bont! Ar Fehefin 7fed, yn ystod digwyddiad arbennig ym Mhortmeirion i nodi Wythnos Gwirfoddolwyr, cyflwynwyd tystysgrif iddi hi am ei chyfraniad rhagorol fel gwirfoddolwraig efo Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru. Mae Dorothy wedi bod yn gwirfoddoli i'r Gymdeithas am 20 mlynedd.

**Capel Bethlehem**
*Oedfaon*
Gorff. 23: Oedfa; Gorff. 30: Parchg. John Gwilym Jones; Mis Awst – DIM OEDFAON; Medi 3: Parchg. Euros Wyn Jones; Medi 10: Gweinidog; Medi 17: Parchg. Geraint Roberts.
Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

*Te Mefus*
Cynhaliwyd ein Te Mefus blynyddol ar nos Fercher, 28 Mehefin, a gwnaed elw o £720.00.
Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth!

*Bwrlwm Bethlehem*
Erbyn i'r Llais gael ei gyhoeddi, bydd criw ohonom wedi bod yn mwynhau swper diwedd tymor yn y Clwb Golff yng Nghaernarfon.

# Mynydd Llandygái

**Theta Owen**, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

**Eglwys St. Ann a St. Mair**

| | |
|---|---|
| Gorff. 23: | Cymun Bendigaid |
| Gorff. 30: | Cymun Bendigaid – Eglwys St. Cedol, Pentir (Yr unig wasanaeth yn y Plwyf y Sul hwn). |
| Awst 6: | Gwasanaeth Teuluol |
| Awst 13: | Cymun Bendigaid |
| Awst 20: | Boreol Weddi |

Dechreuir y gwasanaethau am 9.45 y.b.

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau. Os oes unrhyw un yn dymuno trefnu unrhyw wasanaeth arall, cysylltwch a'r Parchedig Christina McCrea (372249) os gwelwch yn dda.

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd – brysiwch wella!

**Clwb y Mynydd**
Ni fydd Clwb y Mynydd yn cyfarfod yn ystod mis Awst. Gwyliau hapus i chwi i gyd! Bydd y cyfarfod nesaf ar y trydydd dydd Mercher ym mis Medi.

**Colli Dylan**
Ddiwedd mis Mehefin daeth y newyddion trist ac anamserol am farwolaeth un o hogiau'r Dyffryn, ac yntau'n ddim ond 43 mlwydd oed. Yn fab i Glenys a Dic Rowlands, Erw Las, roedd Dylan yn un o dri o blant. Roedd yn gymar cariadus i Michelle ac yn dad addfyn i Sasha a Dion. Ar adegau fel hyn, mae geiriau'n anodd. Hwyrach fod yr englyn hwn yn deyrnged sy'n dweud cymaint mwy:

**Er cof am Dylan**
Mor dawel ei ffarwelio – o boenau'r
Trybini a'r brwydro;
Oriau cain sy'm merw'r co'
A gwên yr un digwyno.
**Dilwyn Owen**

Dymuna Michelle, Sasha, Dion a'r teulu ddiolch o galon i bawb – yn berthnasau, ffrindiau a chymdogion – am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth. Gwerthfawrogant yn fawr yr holl roddion, negeseuon, cardiau, blodau a'r cyfraniadau ariannol tuag at elusen Nyrsus Macmillan.

Maent hefyd yn gwerthfawrogi gwaith yr holl feddygon a'r nyrsus yn Ysbytai Gobowen, Gwynedd a Glan Clwyd a fu'n gofalu am Dylan, ac yn dymuno diolch



yn arbennig i staff Meddygfa'r Hen Orsaf, Bethesda a staff Ward Aran, Ysbyty Gwyneddam eu cefnogaeth a'u gofal caredig.

Yn olaf, mae eu diolch yn fawr i staff yr Amlosgfa am eu proffesiynoldeb, i Rosie Waite am arwain gwasanaeth mor arbennig, ac i Gareth Williams, Trefnydd Angladdau, Bethesda, am ei drefniadau trylwyr ac urddasol.

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas ☎ 01248 355336

**Cyngor Llanddeiniolen**

Mae angen symud y Bin Baw Ci yn agosach at y giat ger y cae chwarae, a hefyd angen trwsio'r bin arall.

Angen arwyddion 20 MYA ger yr ysgol ac wrth basio y maes chwarae oherwydd gor yrru yn yr ardal. Llythyru adran drafnidiaeth y cyngor Sir.

Llongyfarchiadau i Rhian Evans-Hill ar gael ei hethol yn is-gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.

**Hoci**

Mae 4 o ferched ifanc y pentref yn cael cryn hwyl yn chwarae hoci y dyddiau yma. Mae Megan a Gwen Williams a Ciara a Cassie Dodd i gyd yn chwarae i Glwb Hoci Ardudwy, Arfon. Bu noson wobrwyo'r clwb yn ddiweddar ac enillodd dwy ohonynt wobrau yn yr adran ieuenctid. Cafodd Gwen wobr am fod yr aelod sydd wedi datblygu fwyaf yn ystod y flwyddyn a derbyniodd Megan wobr am fod yr aelod mwyaf gweithgar drwy helpu yn ystod twrnamaint i'r aelodau iau pan fu'r tîm yn llwyddiannus iawn, yn cystadlu dros gyfnod o bedair wythnos. Cynhelir y clwb bob Nos Lun yng nghanolfan Brailisford ar yr "astro turf". Mae croeso i fechgyn a merched ymuno â'r clwb gyda thimau ar gyfer plant iau yn ymarfer o 4 o'r gloch tan 5 a'r uwchradd yn ymarfer o 5-7 o'r gloch Byddant yn ail-ddechrau ar y 3ydd o Awst a bydd croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â'r clwb i ddysgu chwarae mewn awyrgylch hamddenol a llawn hwyl.

Llongyfarchiadau i Megan, Gwen, Ciara a Cassie ar eu llwyddiant gyda'r clwb.

**Gwobr Tir Na n-Nog 2017**

Cyflwynir Gwobrau Tir Na n-Og yn flynyddol gan Gyngor Llyfrau Cymru i awduron y llyfrau gorau i blant a phobl ifanc a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Enillydd y categori uwchradd eleni yw Manon Steffan Ros a hynny am y trydydd tro. Un o genod Rhiwlas yw Manon sydd bellach yn byw yn Nhywyn, Meirionydd. Y llyfr buddugol yw Pluen a ddisgrifir fel "nofel sy'n archwilio nifer o themâu cyfoethog a heriol wrth adrodd stori Huw, bachgen deuddeg oed sy'n mynd ati i weithio ar brosiect hanesyddol am yr Ail Ryfel Byd dros wyliau'r haf." Mae Manon yn awdur toreithiog a llongyfarchiadau iddi ar ei llwyddiant.

**Arholiad piano**

Llongyfarchiadau i Osian Rowlands, Bron y Waun ar lwyddo yn ei arholiad piano, gradd 2 gyda theilyngdod. Mae'n mynychu Canolfan Gerdd William Mathias i gael ei wersi gan Geraint Roberts, Prestatyn. Da iawn ti Osian a phob dymuniad da i ti yn y dyfodol.

**Merched y Wawr**

I ddiweddu'r tymor cawsom daith ddirgel i Ynys Môn, taith a drefnwyd ar ein rhan gan Derfel Owens, Bysus Gwyrdd Rhiwlas. Eglurodd inni am Sir Fôn Fach a Sir Fôn Fawr. Eglurodd mewn manylder beth oedd ystyr hyn ac roedd rhaid gwrando'n astud i ddeall yn union beth greodd hyn. Cawsom ymweld â sawl lle a disgrifiadau Derfel yn arbennig o dda. Daeth y noson i ben yn Nhafarn Traeth Coch lle cawsom bryd blasus iawn. Diolchwyd i Annes am wneud y trefniadau a diolch i Derfel am noson hynod ddiddorol.

**Penblwyddi arbennig**

Dathlodd Mrs Mair Roberts Hafod Lon, ben-blwydd arbennig yn ystod Mis Mehefin. Gobeithio i chi fwynhau y diwrnod.

Y mae Jim a Rhian Evans-Hill yn dathlu penblwyddi arbennig ym mis Gorffennaf hefyd a phob hwyl i chwithau ar y dathlu.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Enyr a Tor, Hafod Lon ar enedigaeth mab, Gruffudd Stanley. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Cydymdeimlo**

Anfonwn ein cydymdeimlad at Lilian ac Alan Pope, Bron y Waun. Bu farw Mrs Nancy Roberts, mam Lilian, yn ddiweddar, yn 91 oed. Roedd yng nghartref Gwynfa Lodge, Bontnewydd a chyn hynny o Glasfryn, Hen Dŷ, Pontllyfni. Roedd hefyd yn nain i Catrin, Tŷ'r Ysgol, ac anfonwn ein cofion atat tithau hefyd ac at y teulu oll.

Yr un modd cydymdeimlwn â Meurig a Brenda Williams, Bro Rhiwen ar farwolaeth tad Brenda, Morris Williams yn 93 oed. Moi Fodol ydoedd i lawer ac wedi gadael Fodol Uchaf symudodd ef a'i wraig i fyw i'r Groeslon. Derbyniwch ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

**Clwb Rhiwen**

Mae'n rhaid fod Y Dafarn yn Nhraeth Coch yn boblogaidd iawn gan ferched Rhiwlas oherwydd yno hefyd yr aeth rhai o ferched y Clwb am ginio diwedd tymor. Doedd y tywydd ddim yn ffafriol iawn ond cafwyd amser da a phawb wedi mwynhau.

**Yn yr Ysbyty**

Anfonwn ein cofion at Heulwen a John Huw Evans sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Gobeithio y byddwch eich dau yn teimlo'n well yn fuan ac yn dychwelyd i Blas Pengwaith.

**Y Neuadd**

Cafwyd cyfarfod yn ddiweddar i drafod y gwelliannau sydd eu hangen ar y neuadd a braf oedd gweld cynifer wedi dod yno. Mae angen codi arian ar gyfer hyn a bwriedir cynnal gweithgareddau i'r perwyl hynny. Dewch draw i gefnogi'r Neuadd pan fo digwyddiad.

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Mehefin bu aelodau'r gangen yn brysur efo'r Etholiad Cyffredinol - yn ceisio sicrhau bod y pleidleisiau post wedi'u postio, yn dosbarthu cardiau atgoffa a pharatoi ar gyfer y diwrnod mawr. Yna, ar ddydd yr etholiad bu'r aelodau'n ffonio, curo ar ddrysau a chynnig cludiant i'r etholwyr oedd ei angen.

Felly, da oedd cael gwybod bod 70% o'r etholwyr wedi pleidleisio (y gorau y ganrif hon) a bod ymgeisydd y Blaid Lafur dim ond 92 pleidlais y tu ôl i'r ymgeisydd llwyddiannus (y canlyniad gorau i Lafur ers i etholaeth Arfon gael ei sefydlu)- ffaith a achosodd i'r gweithwyr ddathlu mewn parti bach wedi'r etholiad.

Yna, paratowyd ar gyfer sioe amaethyddol y Dyffryn. Yn anffodus, oherwydd y tywydd anffafriol, bu'n rhaid canslo'r sioe – siom i'r aelodau,Albert Owen (aelod seneddol Llafur Ynys Môn) a Siôn Jones (aelod LLafur Cyngor Gwynedd dros Fethel).

Am weddill y mis bu'r gweithwyr yn dal i fyny efo materion eraill yr oedd rhaid iddynt eu hanwybyddu yn ystod cyfnod yr etholiad.

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams,**
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Eglwys y Santes Fair**
*Gwasanaethau*
Gorff 23 – Cymun Bendigaid
Gorff 30 – Dim gwasanaeth – ymuno â St Tegai am 11yb.
Awst 6 – Boreol weddi
Awst 13 – Cymun Bendigaid
Awst 20 – Boreol weddi
Awst 27 – Cymun Bendigaid

Pob gwasanaeth am 9.30 yb ac eithrio Gorffennaf 30ain.

*Cydymdeimlo*
Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Alun Owen, Graig Pandy – Eirwen a Stephen, Ruth, Michael a'u teuluoedd. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd at deulu'r diweddar Barchedig Mervyn Price-Roberts fu'n ficer y plwyf am gyfnod. Cynhaliwyd ei angladd ar Fehefin 27ain.

**Clwb 100 Canolfan Tregarth Mis Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| 43 | Peter Jones | £15 |
| 56 | Peter Roberts | £10 |
| 35 | Tudor Jones | £5 |

**Cydymdeimlo**
Bu farw William Norman Hughes, 33 Tal y Cae, ar Fehefin 25, yng nghartref gofal y Foelas, Llanrug ac yntau'n 94 mlwydd oed. Cydymdeimlwn gyda'i deulu yn eu profedigaeth.

Ar Fehefin 27 yn Ysbyty Gwynedd bu farw Alun Owen, 12 Craig y Pandy , yn 82 oed. Cydymdeimlwn gyda'i briod Eirwen, ei blant Stephen, Ruth a Michael, ei wyrion Iwan, Emma ac Alice, ei orwyr Logan a'i frawd Lawrence.

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**
Daeth y tymor i ben eleni gyda gwledd yng nghartref ein Llywydd am eleni, sef Margaret Jones, Cae Drain. Cawsom gyfle ardderchog i sgwrsio ymhlith ein gilydd ac i gael gwledd fendigedig yng nghartref croesawus Margaret. Diolch o galon Margaret am dy waith diflino drwy'r flwyddyn yn arwain y gangen ac i Jên ac Andrea, ein trysoryddion, am ofalu am y gyllideb ac i Angharad am fod yn ysgrifennydd y gangen. Ydi, mae'r gangen yn fyw ac yn iach, yn llawn o aelodau hwyliog sy'n trefnu nosweithiau gwerth chweil. Dowch i ymuno gyda ni !!!

Bydd y gangen yn dechrau tymor newydd ar Fedi 4ydd, yn Festri Capel Shiloh am 7.30 lle trefnir noson gymdeithasol a lluniaeth.

Edrychir ymlaen yn fawr iawn at gyfarfod Mis Hydref, sef Nos Lun Hydref 2il , pan ddaw'r arlunydd Luned Rhys Pari atom i arddangos ei gwaith ac i siarad ar y testun 'Celfyddyd ar Daith'. Noson wych yng nghwmni un o dalentau mwyaf artistig Cymru a Phrydain.

**Capel Shiloh Tregarth**
*Gwaeledd*
Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Elfed Jones, Ffordd Ffrydlas, Bethesda, sef priod Helen Jones, sy'n aelod ffyddlon yn Shiloh . Mae wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ar fwy nag un achlysur yn ddiweddar. Cofion atoch Elfed.

Ar nodyn hapusach mae ein Trysorydd ffyddlon Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, adre wedi cyfnod estynedig yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, Caernarfon. Ond mae hi'n dal yn gaeth i blastar ar ei choes ac yn parhau i fethu rhoi ei throed ar y llawr ar hyn o bryd. Gofal mawr rwan Eirwen - gadewch Wyn i wneud popeth yn ôl ei allu i helpu yn y tŷ! Yn sicr mae o'n giamstar ar wneud hynny !

*Diolch*
Dymuna Eirwen a Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, fynegi eu gwerthfawrogiad o garedigrwydd y teulu, gweinidog, cyd-aelodau Shiloh a llu o ffrindiau am yr ymweliadau, galwadau a chardiau tra bu Eirwen yn y ddau ysbyty. Diolch o galon.

*Profedigaeth*
Rydym yn cydymdeimlo fel aelodau Shiloh gydag un o'n haelodau sydd wedi colli ei mam yn ddiweddar, sef Olwen Jones, Coed Hywel. Un o ardal Pontyllyfni oedd mam Olwen ac anfonwn ein cofion atoch i gyd fel teulu.

*Cyfarfod Croeso*
Cynhelir Cyfarfod Croeso yn Shiloh , Nos Wener, Medi 1, am 6 o'r gloch i groesawu Y Parchedig Richard Gillion a'i wraig Lesley i'n plith. Mae'n dod yn weinidog yng ngofal Cylchdaith Môn ac Arfon o fis Medi ymlaen. Croeso mawr i bawb hoffai ddod i gyfarfod y teulu. Bydd yn cartrefu ym Mangor.

Gair o ddiolch
Wrth groesawu y Parchedig Richard Gillion i'n plith fe hoffem fel Eglwys ddiolch o galon i'n gweinidog presenol am ei ofal, ei garedigrwydd a'i ymroddiad llwyr i ni yn Shiloh yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ac wrth ffarwelio gydag ef fel gweinidog arnom rydym yn hynod falch o fedru cyhoeddi y bydd yn parhau i ddod atom yn rheolaidd iawn i Shiloh flwyddyn nesaf. Diolch o galon Gwynfor am bopeth, a'n cofion annwyl atoch chi a Katie.

*Drws Agored*
Gair i'ch atgoffa fod Drws Agored yn Shiloh bob bore Gwener o 10 o'r gloch hyd 12 o'r gloch. Dewch draw am baned a sgwrs! Croeso Mawr!!



Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

# Llun o'r gorffennol



George Inn 1963 Goronwy Wyn Roberts, Johann B Beck (Almaen), Addie G Lomozik, William Evans Jones, Samuel Jones, Rees Jones

# Ysgol Pen-y-bryn

**Grŵp Eco**
Mae'r grŵp Eco'n brysur iawn yn gwella amgylchfyd yr ysgol. Buont yn chwynnu ac yn plannu am brynhawn. Hoffai'r grŵp ddiolch i Rebecca Roberts o Ynni Ogwen am ei hamser yn ogystal.

**Pontio**
Ar 22ain o Fehefin, bu dosbarth Carnedd yn perfformio cân Hansel a Gretel ynghyd ag ysgolion eraill yn theatr Bryn Terfel ym Mangor. Cawsant brofiad anhygoel yn perfformio gyda cherddorfa lawn. Yn ogystal, clywyd Rebecca Evans a Paul Charles Clarke yn canu. Hoffai disgyblion dosbarth Carnedd ddiolch i Huw Llywelyn, Annette Bryn Parry, a Rhian o gwmni Opera Cenedlaethol Cymru am eu paratoi ar gyfer y diwrnod a'r holl hwyl. Yn sicr fe fydd y profiad yn aros yn eu cof am byth.

**Diwrnod trosglwyddo**
Cafwyd diwrnod trosglwyddo llwyddiannus iawn unwaith eto eleni. Cafodd pawb flas ar y math o waith fydd yn eu hwynebu ym mis Medi ac ymatebodd pob un yn frwdfrydig. Braf oedd cael croesawu plant bl.2 Ysgol Abercaseg atom – gobeithio i chwi gael diwrnod gwerth chweil!

**Y Criw Mentrus**
Ar Fehefin 12fed, bu pedwar o aelodau'r Grŵp Effeithiolrwydd yn Venue Cymru, Llandudno ar gyfer rownd derfynol rhanbarthol y gystadleuaeth Y Criw Mentrus. Cystadleuaeth sy'n gwobrwyo mentergarwch ydyw er mwyn datblygu dealltwriaeth plant o beth yw busnes a sut i redeg busnes. Bu cystadlu brwd a chyflwynodd y pedwar waith yr ysgol yn wych. Fel y gwelwch o'r llun, roedd y pedwar yn cyflwyno gwybodaeth am waith mentergarwch Cymru Cŵl yr ysgol ac roeddent yn gallu ateb cwestiynau'r beirniaid yn hyderus a brwdfrydig – diolch o galon i'r pedwar ohonoch. Roedd cyrraedd y rownd hon yn gamp ynddi'i hun a llwyddwyd i ennill gwobr Y Tîm Mwyaf Effeithiol – da iawn chi! Yn wir, roedd yn ddiwrnod arbennig o dda a diolch o galon i'r staff fu'n helpu gyda'r gwaith.

**Criced**
Llongyfarchiadau i bawb ym mlwyddyn 6 fu'n cystadlu yn y twrnament criced. Diwrnod bendigedig, a phawb wedi mwynhau! Diolch yn fawr i Sam Painter am hyfforddi'r disgyblion dros y chwe wythnos diwethaf.

**Nofio**
Llongyfarchiadau i blant blwyddyn 6 a lwyddodd i basio prawf Tystysgrif Nofio Cenedlaethol Cymru. Da iawn wir!

**Eglwys Santes Fair**
Cafodd Blwyddyn 6 y cyfle i fynychu gweithdy Hedd Wyn yn ddiweddar yn Eglwys Santes Fair yng Nghaernarfon. Diddorol oedd cael y cyfle i glywed hanes y gadair ddu, a dysgwyd llawer am wneuthuriad y gwaith pren sydd yn rhan o'r gadair unigryw hon. Cafwyd cyfle hefyd i uniaethu â bywyd y milwr yn y Rhyfel Byd Cyntaf, drwy ddysgu am yr amodau gwael roeddent yn gorfod eu dioddef. Profiad gwerth chweil a wnaeth ddyfnhau dealltwriaeth y disgyblion o'r cyfnod!

**Mewn Cymeriad, Hedd Wyn**
Cafodd blwyddyn 5 a 6 brynhawn difyr tu hwnt yng nghwmni Hedd Wyn ei hun y tymor hwn. Daeth Siôn Emyr, yr actor sy'n chware rhan Sion yn Rownd a Rownd, i'r ysgol o gwmni 'Mewn Cymeriad' i actio bywyd Hedd Wyn o'i ddyddiau cynnar yn Nhrawsfynydd i'r adeg yr oedd yn brwydro yn Ffrainc. Oherwydd gwaith Hanes y disgyblion ar y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd cael y perfformiad hwn yn cyfleu stori Hedd Wyn yn llawer mwy bywiog. Cafodd amryw o ddisgyblion gyfle i chware rôl yn ystod y perfformiad – bu i rai actio rhan y cyrchwyr yn yr Eisteddfod, a rhai yn actio milwyr. Cafodd Mr Roberts gyfle i fod yn Archdderwydd hyd yn oed! Diolch yn fawr iawn Hedd Wyn am brynhawn difyr!











ER COF
Am
**DANIEL JONES**
Milwr Cyffredin 60318
Cartrawd Cymru
A fu farw
8 – 7 – 1917
Yn 23 oed
Mab Daniel a Margaret Jones
Shop, Bontuchaf, Bethesda

**W. H. Roberts**
Milwr Cyffredin 20947
Catrawd Brenhinol Cymru
A fu farw
31 – 7 – 1917
Yn 23 oed
Mab Hugh a Janet Roberts
7 Mostyn Terrace, Bethesda
(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

## Ysgol Bodfeurig

Gyda'r haf wedi cyrraedd mae plant yr ysgol wedi cael llawer iawn o brofiadau yn yr awyr agored. Dewch i glywed amdanynt!

**Hyfforddiant Beicio**
Treuliodd pawb o ddosbarth Ogwen ddau ddiwrnod prysur yn cymryd rhan mewn hyfforddiant beicio. Cafodd pawb ddysgu am bwysigrwydd gofalu am y beic, a diogelwch ar y ffordd, cyn i bob un ohonynt lwyddo i basio cam 1 a cam 2 o'r hyfforddiant. Da iawn!

**Cystadleuaeth Criced**
Yn ystod y mis aeth dau dîm o gricedwyr yr ysgol i gaeau criced Bethesda i gymryd rhan mewn twrnament criced. Cafodd y criw amser gwych yn cystadlu yn erbyn ysgolion eraill o'r dalgylch – profiad gwerth chweil i bob un. Diolch i'r trefnwyr ac i'r ysgolion eraill am ddiwrnod i'w gofio.

**Pethau Pitw Bach**
Os edrychwch yn ofalus o gwmpas Mynydd Llandegai dwi'n siwr y gwelwch chi lawer o bethau pitw bach ac dyma'n wir oedd thema dosbarth Idwal y tymor yma. Maent wedi cael llawer iawn o hwyl yn dysgu am drychfilod a chreaduriaid bach eraill, ond, yn fwy cyffrous na hynny hyd yn oed, roedd ymweliad gan neb llai na Tesni y Dylwythen Deg! Daeth Tesni i'r dosbarth i greu stŵr ond hefyd i ddysgu pethau newydd i bawb. Trôdd y tŷ bach twt yn dŷ tylwyth teg a chorachod, a daeth y thema i ben gydag ymweliad gwych i Barc Coed y Sipsi ger Bontnewydd. Cofiwch gadw llygaid allan am Tesni'r Dylwythen Deg os ewch chi i grwydro o amgylch Mynydd!




**Traws Gwlad**
Llongyfarchiadau mawr i griw o'r ysgol fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth traws gwlad yr Urdd yn ddiweddar. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar Stad y Faenol a chafodd pawb brofiad gwych oedd yn dysgu gwers bwysig iddynt – dyfalbarhau! Rydym yn falch iawn o bob un ohonoch fu'n cystadlu ac yn gwneud eich gorau glas!

**Mabolgampau**
Dyma braf oedd gweld caeau'r ysgol yn orlawn ar gyfer ein mabolgampau. Cafodd pawb gyfle i gymryd rhan mewn llawer o gystadlaethau gwahanol a chyfle i gynrychioli eu timau yng nghwmni rhieni a ffrindiau'r ysgol. Da iawn i bob un gymerodd ran, a diolch o galon i bawb ddaeth i gefnogi. Llwyddwyd i godi £80 ar y diwrnod tuag at archebu e-lyfrau newydd ar gyfer yr ysgol – adnodd gwerthfawr iawn.







# Gweithgareddau Plant Plas Ffrancon

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dydd Iau | 16.30 - 17.15 | Sesiwn Ystafell Ffitrwydd 11 - 15 | | | | | | | | |
| Dydd Gwener | 16.00 - 19.45 | Gwersi Gymnasteg (4 Gwers) | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| WYTHNOS 1,3 +5 | 08.00 - 9.00 | 9.00 - 10.00 | 10.00 - 11.00 | 11.00 - 12.00 | 12.00 - 13.00 | 13.00 - 14.00 | 14.00 - 15.00 | 15.00 - 16.00 | 16.00 - 17.00 |
| Dydd Llun | Clwb Brecwast | Osgoi Pêl | Amser Aur | Pêl Droed | Cinio | Sboncen | Sgipio | Amser Aur | Pêl Fasged |
| Dydd Mawrth | | Badminton | Pêl Droed | Amser Aur | Cinio | Osgoi Pêl | Criced | Amser Aur | Rownderi |
| Dydd Mercher | | Pêl Rwyd | Amser Aur | Badminton | Cinio | Sgipio | Amser Aur | Pêl Rwyd | Sboncen |
| | | Wythnos 3 Nofio ym Mangor | Wythnos 3 nofio ym Mangor | Wythnos 3 Nofio ym Mangor | Cinio | | | | Hwyl NERF* |
| Dydd Iau | | Osgoi Pêl | Rownderi | Amser Aur | Cinio | Tenis | Amser Aur | Pêl Droed | Badminton |
| Dydd Gwener | Clwb Brecwast | Sboncen | Amser Aur | Criced | Cinio | Osgoi Pêl | Gymnasteg | Amser Aur | Mabolgampau |
| | | | | | | | | | |
| WYTHNOS 2,4 +6 | 08.00 - 9.00 | 9.00 - 10.00 | 10.00 - 11.00 | 11.00 - 12.00 | 12.00 - 13.00 | 13.00 - 14.00 | 14.00 - 15.00 | 15.00 - 16.00 | 16.00 - 17.00 |
| Dydd Llun | Clwb Brecwast | Pêl Droed | Amser Aur | Osgoi Pêl | Cinio | Sboncen | Rownderi | Amser Aur | Pêl Fasged |
| Dydd Mawrth | | Badminton | Pêl Droed | Amser Aur | Cinio | Osgoi Pêl | Criced | Amser Aur | Rownderi |
| Dydd Mercher | | Pêl Rwyd | Amser Aur | Badminton | Cinio | Sgipio | Amser Aur | Pêl Rwyd | Sboncen |
| | | Wythnos 6 Nofio ym Mangor | Wythnos 6 Nofio ym Mangor | Wythnos 6 Nofio ym Mangor | Cinio | | | | |
| Dydd Iau | | Osgoi Pêl | Rownderi | Amser Aur | Cinio | Criced | Amser Aur | Pêl Droed | Badminton |
| Dydd Gwener | Clwb Brecwast | Pêl Droed | Amser Aur | Criced | Cinio | Pêl Fasged | Amser Aur | Amser Aur | Osgoi Pêl |

Talu a Chwarae: £1.50 yr awr. Plant 5 – 11 oed. Mae bwyd ar gael yn y caffi, neu gallwch ddod â bocs bwyd efo chi. O y bydd y tywydd yn braf, bydd y plant yn mynd allan – argymhellir dod ag eli hau. *Hwyl NERF ymlaen ynystod wythnos 3 yn unig – dewch â gwn NERF gyda chi!

# CHWILAIR

**TAFARNDAI / GWESTAI CYMRU**

Yn y chwilair mis yma mae ENW DEUDDEG TAFARN / GWESTY YNG NGHYMRU. Efallai bod rhai wedi diflannu erbyn hyn, ond mae un neu ddau yn dal i groesawu cwsmeriaid. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ayb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn AWST 29. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Dyma ni yn mynd o amgylch Cymru unwaith eto, ond y tro yma cawn ddiferyn bach wrth grwydro. Mwynhewch yr egwyl tros yr haf. Roedd nifer fawr ohonoch wedi rhoi DOL MAER fel un o'r atebion i chwilair Mehefin, ond yn anffodus nid oes lle o'r enw yna yn Sir Penfro, yn ôl llyfr 'Dictionary of the Place-Names of Wales' gan Hywel Wyn Owen a Richard Morgan, felly nid aeth eich enwau i mewn i'r het.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | T | **L** | **O** | **D** | **E** | **B** | **Y** | S | W | F | H | G | R | I | E | J | L | C |
| M | B | V | A | B | H | X | J | U | A | I | S | V | W | S | H | E | I | M | G |
| V | H | Y | M | F | D | W | H | U | I | Z | M | X | E | V | A | D | D | N | A |
| P | A | T | U | Q | A | U | S | O | T | F | R | P | S | Y | Q | S | G | Z | G |
| R | H | Y | C | U | M | R | W | N | H | O | Y | R | T | I | E | A | O | S | Z |
| U | T | G | F | D | X | U | N | P | S | W | R | H | Y | O | C | Q | R | H | W |
| E | H | W | O | Y | E | E | G | Y | E | E | O | M | R | H | E | P | S | T | T |
| C | B | Y | B | C | R | U | U | J | R | P | L | C | E | T | M | I | B | V | V |
| D | C | R | B | H | B | W | F | R | E | H | U | F | R | O | G | J | A | V | I |
| I | R | D | R | X | C | I | A | M | N | A | O | H | Y | T | T | O | C | S | K |
| O | P | D | W | R | C | O | M | F | D | K | C | S | R | B | O | R | H | C | X |
| V | R | Y | H | S | T | M | C | D | N | R | E | F | O | Y | J | D | Z | H | B |
| C | W | O | S | C | R | A | E | W | I | I | X | N | D | I | N | L | X | J | J |
| M | B | W | T | E | X | W | M | D | E | X | G | K | F | U | O | P | C | Q | Y |
| O | I | L | F | E | L | R | Z | Q | R | L | O | E | C | T | F | D | G | W | S |
| L | Z | N | Y | L | E | C | N | Y | W | L | L | E | G | B | D | E | A | J | K |
| J | C | L | A | N | L | R | V | O | G | J | P | W | P | G | D | S | O | W | J |
| J | Q | R | U | L | F | S | V | T | X | E | U | G | H | S | R | L | Z | E | A |
| F | Y | T | A | F | A | R | N | Y | M | I | L | G | I | X | A | I | W | T | Z |
| H | K | V | A | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O | G | G | D | H | B | S |

**Dyma atebion Mehefin:** Aber-cuch; Aberllydan; Blaen-ffos; Brynberian; Brynhenllan; Caerfarchell; Felindre Farchog; Hwlfforddd; Treamlod; Trefelin; Y Garn Fawr; Ynys Bŷr. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:** John Roberts, Pwllheli; Alwyn Rowlands, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Mair Jones, Bethesda; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch.

**Enillydd Mehefin :** John Roberts, Llain Las, Lôn Tŷ'r Gof, Y Ffôr, Pwllheli, Gwynedd LL53 6UF




**Siân Gwenllian**

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

(01248) 372948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



**Hywel Williams**

Aelod Seneddol

Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**

# Ysgol Llandygái

**Ymweliad Llangollen**
Aeth tair llond bws o ddisgyblion, athrawon a gwirfoddolwyr am Langollen fore Mawrth, Wythnos Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Cawsom ddiwrnod i'w gofio gyda'r tywydd braf a'r disgyblion yn cael cyfleoedd i weld amrywiaeth o berfformiadau a diwylliannau amrywiol. Cawsom gyfle i wrando ar gyngerdd gan unigolion o Tseina yn ogystal â chôr anhygoel *Only Boys Aloud* ac ensemble pres *'Tubalate'* yn perfformio caneuon amrywiol ar yr offerynnau pres. Mwynhaodd y plant y profiadau, a gwario eu pres yn y stondinau amrywiol yno!
Diolch i Mrs Emma Davies am drefniadau trylwyr.





**Diolch**
Diolch i holl wirfoddolwyr darllen yr ysgol am eu gwaith diflino yn wythnosol a hefyd i ffrindiau yr Eglwys - Cynllun Agor Y Llyfr am eu hymweliadau sydd yn sicrhau fod y disgyblion yn cael clywed hanesion o'r Beibl drwy ddrama yn bythefnosol. Mae'r plant wir yn eu mwynhau!

**Ymweliad y Gadeirlan**
Eto y flwyddyn hon bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ymuno gyda disgyblion ysgolion y dalgylch i fwynhau diwrnod yng nghwmni aelodau yr Eglwys Gadeiriol ym Mangor. Roedd llawer o'r gweithgareddau yn deillio o stori Jona a'r Morfil; yn wir, fe gawson nhw ddiwrnod gwerth chweil! Diolch am ddiwrnod llawn o weithgareddau symbylus a lliwgar.

**Llongyfarchiadau**
Aeth llond bws o ddawnswyr, athrawon a rhieni am Ben-y-bont Ar Ogwr i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd fis Mai. Trip i'w gofio, a diolch i Miss Mared Roberts am eu hyfforddi. Cynhaliwyd noson Bingo yn yr ysgol i godi arian tuag at yr ymweliad, a diolch mawr i gefnogaeth y rhieni. Cawsom gyfraniad enfawr gan fusnesau lleol. Diolch i'r canlynol am eu nawdd tuag at y noson Bingo:
Ashbrooks Ltd, Home of Heating, Hughes Meats, Mikes Garage Llandygai, Celtest, Dragon Hydrolics, Bangor Felt Roofing – Toeau Bangor, Hwylfan, Pili Palas, Glamour room, *Fferm Foel, The Straits* – Porthaethwy, Castell Caernarfon, Pafiliwn Criced, Huws Gray, *Play centre*, New Image, Castell Penrhyn, Dr Ziggs, Portmeirion, Greenwood, Huws Gray, rhieni a theuluoedd

**Eisteddfod Ysgol**
Braf oedd cael croesawu Miss Caryl Bryn atom i feirniadu gwaith llenyddol disgyblion Blwyddyn 6 am y gadair eleni. Testun eleni oedd Cestyll ac aeth y disgyblion ati i fod yn feirdd o fri drwy gyfansoddi cerddi o safon uchel! Yn wir, roedd Miss Bryn yn canmol safon y cynnyrch. Diolch i Mrs Nia Hughes am annog ac ysbrydoli'r disgyblion. Llongyfarchiadau i Erin ar ddod yn fuddugol ac i Corey a Molly ar ddod yn ail a thrydydd. Cafwyd seremoni yn yr ysgol gyda chanu a'r ddawns flodau i longyfarch Erin.

**Gwledd Syrcas Pontio**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 gyfle i gydweithio gydag aelodau staff PONTIO yn ddiweddar i greu baner a hetiau pinafal ar gyfer parêd Gwledd Syrcas. Dewiswyd y ffrwyth pinafal yn arbennig i gofio am y cysylltiad â Chastell Penrhyn pan oedd pinafalau yn cael eu tyfu ar y tir er mwyn eu hallforio i wledydd eraill y byd.

**Diwrnod Stem**
Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Ysgol Tryfan yn ddiweddar i ddatblygu sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg a Mathemateg. Cawsant hwyl yn blasu ac roedd hyn yn



gyfle ardderchog i ddod i adnabod ysgol ac athrawon newydd.

**Gardd Fyfyrio**
Bellach mae gardd fyfyrio wedi ei sefydlu ym merllan yr ysgol. Diolch i'r artist graffiti Andy Birch am ei waith yn creu cefndir myfyriol. Bydd y disgyblion yn cael mynd yno i weddïo neu i gael pum munud o dawelwch pan fydd arnynt angen.

**Modurdy Central**
Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

# Llythyrau

Annwyl ddarllenwyr,
Y mae ardal Dyffryn Ogwen wedi ennyn cryn dipyn o sylw yn ddiweddar, ac, yn anffodus mae'r sylw yma wedi bod yn un negyddol ac yn un sy'n creu cryn bryder ynein cymuned. Mae Stryd Fawr Bethesda yn llawn fflatiau, ac ar ddechrau'r flwyddyn roeddem yn eithaf pryderus am y nifer oedd eisoes yn adnabyddus i'r heddlu oedd yn symud i mewn i rai o'r fflatiau hyn . Aethom ati i drefnu cyfarfodydd gyda gwahanol asiantaethau tai cymdeithasol er mwyn rhannu ein pryderon. Yn anffodus, cyn i'r gwaith ddwyn ffrwyth, gwelwyd digwyddiadau yn y pentref nad oedd yn weddus mewn unrhyw gymuned .Gwelwyd sawl enghraifft o ymddwyn yn wrth-gymdeithasol, ac arestiwyd 8 unigolyn am wahanol droseddau. Ymhellach, dechreuwyd ar y broses gyfreithlon o orfodi rhai o drigolion y fflatiau i adael. Yn sgil y pryder mawr a grewyd, trefnwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod y mater. Rhoddodd y cyfarfod gyfle i'r gymuned leisio'u pryderon tra bo'r gwaith o geisio datrys y broblemau yn mynd ei blaen o ddifri. Roedd llais y gymuned yn gymorth sylweddol yn yr achos hwn.

Erbyn heddiw y mae 7 o denantiaid y fflatiau wedi cael eu gwahardd a dau bellach yn y carchar o achos eu hymddygiad. Rydym eisoes wedi gweld pethau'n gwella yn y pentref.Mae cytundeb a pherthynas dda rhwng yr heddlu a'r cyngor cymuned ar ôl cydweithio i ddatrys y problemau hyn, a mawr obeithiwn allu parhau i gydweithio i osgoi'r fath sefyllfa yn y dyfodol.

Rydym wedi wynebu cyfnod caled yn ddiweddar, ond mae'r gymuned wedi dod ynghyd i geisio ymateb. Rydym yn meddwl ei bod hi'n bwysig iawn i osgoi siarad am Ddyffryn Ogwen mewn ffordd negyddol. Rydym yn ymwybodol iawn ein bod wedi gweld pethau annerbyniol ond mae'r sefyllfa ers dechrau Mis Mai wedi gwella'n sylweddol. Er enghraifft, ddechrau mis Mehefin cawsom dri achos o ymosod, tri achos o greu difrod , 8 achos o ymddygiad gwrth-gymdeithasol ac un achos o ladrata. Er mwyn rhoi'r ffigurau hyn yn eu cyd-destun, bydd yr heddlu ym Mangor yn delio gyda mwy o achosion na hyn mewn un diwrnod. Felly, rydym yn hyderus y gallwn ddweud bod Dyffryn Ogwen yn parhau i fod yn lle braf a diogel i fyw a gweithio ynddo, a bod gymuned yn un heb ei hail.

Fe hoffwn i, yma ym Methesda, ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gefnogaeth a gawsom yn ystod y cyfnod anodd yma. Byddwn yn cyfarfod yn gyson nawr gyda'r asiantaethau tai cymunedol a'r cynghorwyr lleol . Hefyd rydym yn bwriadu cynnal cyfarfod 'panad â'r plismon' er mwyn rhoi siawns i chi gael sgwrs gyda ni yma ym Methesda am eich pryderon. Mae Caffi Coed y Brenin wedi cytuno i ni gael cynnal y cyfarfodydd yno. Diolch yn fawr i Karen am ei charedigrwydd. Fe'ch hysbyswn yn fuan o'r dyddiad a'r amseroedd.

Cofiwch, nid oes angen i chi ddisgwyl i'r broblem ddigwydd er mwyn cael trafod pethau. Y mae croeso i chi gysylltu â ni yn siop Partneriaeth Ogwen ar y Stryd Fawr unrhyw dro.

**Iwan W Owen**
Swyddog Cefnogi Cymuned Yr Heddlu 3622
Swyddfa'r Heddlu Bethesda
Est 85065
01286 670297
07814 645830
Iwan.Owen@nthwales.pnn.police.uk

Annwyl Olygydd,
Ar ôl gweld yr erthygl am Dafydd Vincent Davies yn Llais Ogwan, Mehefin 2017, dyma gofio am yr amser a dreuliodd yn Ysgol Pen y Bryn, Bethesda fel myfyriwr ar brofiad dysgu.

Fel y gŵyr rhai ohonoch, roedd yn arlunydd da iawn, a dyma'r llun a beintiodd yn fy albwm llofnodion ym mis Hydref 1953. Rwyf wedi ei drysori byth ers hynny. Tybed a yw yn cofiio gwneud y llun arbennig hwn?

**Dafydd Gwilym Jones**,
Pant Glas, Bethesda.







JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

# Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Yn Venue Cymru Llandudno ar Nos Sadwrn braf Mehefin 17 cynhaliodd Côr y Penrhyn eu hail gyngerdd gyda band pres enwoca'r byd. Band o Queensbury ger Bradford yn Swydd Efrog ydy Black Dyke ac maen nhw'n enwog drwy Ewrop a gweddill y byd am safon eu perfformiadau, gan iddynt ennill llu o wobrau cenedlaethol a rhyngwladol. Arweinydd y band yw'r Dr Nicholas Childs, brodor o Went fel mae'n digwydd, ac mae'r band disglair a disgybledig hwn wedi mynd o nerth i nerth i nerth o dan ei arweiniad medrus.

Dim ond eithriadau prin yw'r digwyddiadau hynny sy'n llwyddo i lenwi Venue Cymru bron i'w ymylon ond llwyddodd y côr i wneud hynny gyda'r band hwn. Yn y cyngerdd a agorwyd gan y band clywsom ddarnau bywiog a chyffrous yn cael eu canu gydag arddeliad a bu'r gynulleidfa'n dystion i berfformiadau gwirioneddol wych gan unawdwyr offerynnol penigamp. Clywyd sawl un yn gwneud sylwadau i'r perwyl fod cost y tocynnau sef £17.50 ac £20 yn werth pob dimai am y rhan hon o'r noson yn unig.

Yn ail ran y cyngerdd daeth Côr y Penrhyn i'r llwyfan i fonllefau o gymeradwyaeth. O dan arweiniad brwdfrydig Owain Arwel mae'r côr wedi gwneud cynnydd syfrdanol ac wedi difyrru cynulleidfaoedd hyd a lled y DU ac America. Bellach, Côr y Penrhyn yw'r ensemble lleisiol y mae pobl yn tyrru i wrando arno, lle bu corau fel Corws Colin Jones a Chôr Godre'r Aran yn teyrnasu o'r blaen.

Dyma raglen y côr ar y noson:-

**Hanner Cyntaf**

1 *Y Ddau Wladgarwr* (Joseph Parry – Trefniant Colin Jones o'r ddeuawd gyfarwydd ar gyfer corau meibion.)
2 *Tears in Heven –Dagrau* (Eric Clapton. Trefniant dwyieithog gan Owain Arwel)
3 *Bring Him Home* (Shönberg/Boublil - allan o'r sioe gerdd enwog Les Misérables)
4 *Heriwn, Wynebwn y Wawr* (Eleri Cwyfan / Gareth Glynne – darn sy'n dathlu'r dadeni a ddaw i fyd natur ac i Gymru a'r Gymraeg)
5 *Pererin wyf /House of the Rising Sun* (geiriau W. Williams Pantycelyn ar alaw draddodiadol o New Orleans.)

**Ail Hanner**

6 **Nkosi Sikelel' iAfrica** (Emyn a rhan o anthem genedlaethol De Affrica) / **Tshotsholoza** (cân ryddid pobl croenddu De Affrica)
7 **Moliannwn** (gan Benjamin Thomas, y chwarelwr o Fethesda a ymfudodd i'r America ac a gyfansoddodd y geiriau a wnaed yn enwog gan Bob Roberts, Tai'r Felin, yn gynnar yn y 1950au)
8 **Tangnefeddwyr (**Eric Jones / Waldo Williams – cân sy'n sôn am heddychiaeth tad a mam Waldo hyd yn oed ynghanol erchylltra'r Ail Ryfel Byd**)**
9 **The Creation (**Willy Richter **-** Cân Americanaidd sy'n disgrifio creadigaeth y ddaear allan o Genesis**)**

**Gyda'r Band**

1 **Tiroedd ein Cof (**Ieuan Wyn / Owain Llwyd - Cyfansoddiad newydd sy'n trafod y mannau sy'n gysylltiedig â'r hen dywysogion Cymreig. Perfformiad byd-eang cyntaf.)
2 **Byd o Heddwch - World in Union (Skarbek / Holzt - Geiriau Cymraeg – Penri Jones.)**
3 **Gwahoddiad (**Emyn dôn Americanaidd gan Lewis Hartsough. Geiriau Cymraeg gan Ieuan Gwyllt)
4 **Encôr** Fel *encôr* canodd y côr *Ryfelgan y Weriniaeth* (Battle Hymn of the Republic) a ysgrifenwyd gan yr Americanes Julia Ward Howe yn 1861 yn ystod y Rhyfel Cartref yn yr America. Emyn a ganwyd yn angladdau Winston Churchill, Robert Kennedy, Ronald Reagan a Richard Nixon yw hon ac fe'i canwyd gan Gôr y Penrhyn ymhob un o'r cyngherddau a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau yn 2016.

Roedd ymateb y gynulleidfa yn Venue Cymru i berfformiadau'r côr a'r band yn ganmoliaethus tu hwnt. "Dyma'r ail dro i mi a tair o fy ffrindiau deithio i fyny i Landudno i wrando arnoch," meddai Mrs Arianwen Headech o Stoke on Trent, "ac rydyn ni'n tair wedi cael gwefr unwaith eto."

Meddai Ieuan Wyn, awdur geiriau **Tiroedd ein Cof** " Roedd eich perfformiad yn wirioneddol wych a hoffwn ddiolch i chi am y gwaith ardderchog ar y darn newydd ac am gyngerdd cyfan oedd yn brofiad cyffrous a difyr."

Roedd Dr Owain Llwyd, a gyfansoddodd gerddoriaeth y darn hefyd wedi ei blesio'n fawr gyda'r cyflwyniad a gobeithiai'n fawr fod y côr a'r gynulleidfa wedi cael eu gwefreiddio gan berfformiad byd eang cyntaf y darn heriol hwn. "Da iawn bawb," meddai.

**Artistiaid mewn preswyl**

Yn niwedd Mis Mehefin bu'r côr yn gweithio ar brosiect gan griw o artistiaid yng Nghastell Penrhyn. Yn y prosiect roedd y côr yn cymryd rhan mewn cyflwyniad oedd yn ceisio rhoi blas o Streic Fawr Chwarel y Penrhyn trwy gân, gorymdaith ac areithiau. Ffilmiwyd yr holl weithgaredd a bydd gobaith i gynulleidfaoedd ehangach gael gweld y perfformiad yn nes ymlaen.

Canodd y côr nifer o ddarnau oedd yn ymwneud â chyfnod y streic gan gynnwys yr emyn dôn "Pembroke" a ganwyd yn yr orymdaith i lawr i Fangor, pan drodd cannoedd o chwarelwyr eu hwynebau draw oddi wrth Gastell y Penrhyn ar eu ffordd heibio i roi cefnogaeth i rai o'u cyd-weithwyr oedd yn ymddangos o flaen llys y ddinas. Yn y castell un o'r darnau a ganwyd oedd **Moliannwn** a gyfansoddwyd gan y chwarelwr Benjamin Thomas (Ben Jeri) ar dôn Americnaidd ar ôl iddo ymfudo yno o Fethesda ar ddiwedd y 19eg ganrif. Cân lon a bywiog sy'n dathlu dyfodiad y gwanwyn a sioncrwydd ieuenctid.

**LleChi**

Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir eleni ar Ynys Môn, bydd y côr yn cymryd rhan mewn perfformiad arall o'r sioe **"LleChi"** gan 9Bach yn Theatr Pontio, Bangor. Fe gofia llawer inni berfformio yn y sioe honno ym Mis Ebrill 2016 a hynny i gymeradwyaeth uchel gan bawb a fu yno.

Grŵp a sefydlwyd ac sy'n cael ei arwain gan Lisa Jên o'r Gerlan ydy 9Bach ac fe enillodd wobr Grŵp Gwerin y Flwyddyn gan Radio 2 yn 2015.

Mae'r côr eisoes wedi ail gydio yn yr ymarferion am y perfformiad newydd ynghanol prysurdeb ei raglen arferol.

Felly, os na chawsoch gyfle i weld a chlywed y perfformiad arloesol a diddorol hwnnw y tro cyntaf dyma eich cyfle. Holwch am docynnau yn Pontio.

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon
Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol
Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS
FINE ART TRADE GUILD

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?



© Dr J. Elwyn Hughes

## Ar y Bysys 3

**Bysys y Moduron Porffor (ii)**
Bysys-un-dyn oedd y ddwy Bedford a gofiaf yn y garej. *Coach* oedd y Bedford Vista, fymryn mwy moethus na'r Bedford bach – sef y twenti-êt fel y gelwid hi – y byddid yn ei defnyddio ar y gwasanaeth rhwng Bethesda a Bangor drwy Dregarth a Glasinfryn. Cofiaf fel y byddai gŵr oedrannus yn dod ar y bws yn Nhy'n Lôn, ger y Gelli, ac yn dod i eistedd i'r sêt flaen wrth ymyl y gyrrwr. Dim problem yn hynny o beth *ond* pan dania'i getyn a smocio baco Amlwch, byddai'n mygu nid yn unig y gyrrwr ond pawb arall yn y bws! Gallech dorri'r awyrgylch â chyllell, hynny yw pe baech yn gallu gweld yn ddigon clir drwy'r tonnau o fwg tew oedd yn chwyrlïo o'ch cwmpas!

Mae'n rhaid crybwyll mai dyddiau'r *double-de-clutching* oedd hi a byddai'n rhaid newid gêr yn ôl sŵn a chylchdroadau'r injan – er enghraifft, os oeddech chi yn y drydedd gêr ac isio newid i lawr i'r ail, byddech yn pwyso'r *clutch* a thynnu'r lifar gêr i'r canol ac yna pwyso'r *clutch* eto a defnyddio'r lifar i gael hyd i'r ail gêr. Ond byddai'n rhaid i hyn i gyd ddigwydd pan fyddai'r injan yn 'barod' fel petai. Ni thalai i chi gamamseru'r weithred hon! Buan iawn y doech i arfer â'r dechneg ac anaml y caech gam gwag.

Yr AEC oedd y bws a roddai fwyaf o her i'r gyrwyr. Roedd y llyw a sêt y gyrrwr yn gam ond bod y naill yn gogwyddo i un ochr a'r llall yn gogwyddo i'r ochr arall, ac felly roedd cael rhyw fath o gydbwysedd yn anodd! At hynny, gallai newid gêr fod yn hunllef! Pan ddefnyddiwyd hi gyntaf ar y siwrnai drwy Dregarth, cofiaf y gyrrwr yn mynd i Fangor ac yn ôl yn yr ail gêr gan na allai ddod o hyd i unrhyw un gêr arall. A welai neb fai arno!

Bu'n rhaid i mi aros am flwyddyn neu ddwy cyn cael gwireddu ail ran fy mreuddwyd.

*I'w barhau*

Dips ar gyfer barbeciw neu barti

## Saws Taco

1 nionyn wedi ei dorri'n fân.
½ llwy de cumin.
½ coriander.
1 clôf o arlleg wedi ei falu.
1 pupur gwyrdd.
Pinsiad go lew o bupur du, halen a siwgr.
Tun 400g o domatos (wedi'u malu'n barod)
1 llwy de o puree tomato.
1 llwy fawr o olew.
1 chilli.

Malwch y pupur yn fân, rhoi mewn sosban (neu wok) efo'r nionyn ar wres isel neu y byddant wedi meddalu.
Torrwch y chilli yn fân, rhowch o efo'r sbeis a'r garlleg yn y sosban a'i fudferwi am ryw 4-5 munud.
Ychwanegwch y tomatos, siwgr ac ati at y cwbl.
Mudferwi am 5-7 munud nes bod y saws wedi twchu.
Ychwanegwch y puree tomato. Rhowch dipyn o goriander ffres ar ei ben.

## Dip Thai

2 arlleg wedi'u gratio.
2 chilli coch wedi'u torri'n fân.
Rhowch 1 llwy de o siwgr, sudd 2 leim, 3 llwy de o ddŵr, 3 llwy de o saws pysgod.
Cymysgwch y cwbl mewn dysgl fach.
Mi wnaiff gadw am bythefnos yn yr oergell, ond gofalwch ei orchuddio efo cling ffilm neu bydd popeth yn yr oergell yn blasu fel y dip!

# Rhyfel Byd Cyntaf

**ganAndre Lomozik**

Yn rhifyn Rhagfyr y llynedd o'r Llais, soniais am Robert Jones, a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ychydig yn ddiweddarach daeth mwy o wybodaeth amdano gan ei deulu, a llun ohono gyda'i gefnder. Holais ar y pryd os oedd gan fwy o drigolion yr ardal luniau o'r bechgyn a fu'n ymladd yn y Rhyfel. Daeth sawl un i gysylltiad â mi gyda mwy o luniau a hanes eu teuluoedd. Yna, cysylltodd Glyn Evans, o'r Amwythig, â mi yn dweud fod ganddo nifer o luniau o fechgyn o'r ardal ond nid oedd enw ar y rhan fwyaf ohonynt ganddo. Dyma'r lluniau a chais i chi ddarllenwyr y Llais am gymorth i'w henwi, neu am fwy o luniau.









# Chwaraeon

## Buddugwyr y Gynghrair Dominos



Enillwyr y Gynghrair: Tîm Pen y Brenin (o'r chwith): Claire Molloy, Dewi Morris (Capten), Ron Thomas, Richard Berwyn Owen (Dic Bers) sydd yn gadeirydd y Gynghrair, Nigel Jones a Dafydd Gwilym Jones.



Enillydd y Senglau: Manon Briggs gyda'r Cadeirydd.



Enillwyr y Dyblau: Norman Young a Brian Parry hefo'r Cadeirydd.



Enillwyr y Cwpan a'r Darian: Tîm B Y Tarw (o'r chwith): Elfed Williams, Brian 'Corbri' Roberts, Maggie Roberts, Gwynfor Owen, Bob Temp (Capten), Haydn Davies, Janice 'Chips' Jones, Glyn 'Bull' Williams, Dyfrig 'Cowboi' Owen.

## Balchder Bro Ogwen

Dyma lun o'r criw ddaeth i hel sbwriel Nos Fercher 13 o Fehefin. Cynhaliwyd y noson gan Bartneriaeth Ogwen a Balchder Bro ar y cyd, ac roedd yn llwyddiant ysgubol (ansoddair addas – gol.)! Daeth dros 40 o bobl a phlant i helpu hel sbwriel ym Mharc Meurig a maes parcio Cae Star, gan gasglu 25 o fagiau. Bydd Partneriaeth Ogwen yn cynnal mwy o nosweithiau dros yr haf, yn ogystal â sesiynau glannau yn yr Afon Ogwen. Mae croeso i unrhyw un ymuno, wedi'r cyfan, mae'r gymuned yn perthyn i bob un ohonon ni!

